

ECO'R WYDDFA

Rhif 226

MEDI 1996

Pris 30c

Draeniau o'r Diwedd

Daeth dechrau'r diwedd i saga a barodd ers cyn sefydlu Eco'r Wyddfa. Ar gychwyn y 70au y codwyd Stad Glanffynnon ac Afon Rhos, Llanrug, ond buan y cafwyd problemau efo draeniau diffygiol.

Aeth â'r adeiladydd i'r uchel lys a chael addewid ganddo i gywiro'r diffygion. Ond aeth yntau'n fethdalwr a chymerodd flynyddoedd o ddadlau, ymgyrchu, codi gobeithion a siomedigaethau cyn i gwni RGSJ o'r Fali gal y contract i drwsio'r draeniau, gwaith y disgwylir iddo ddod i ben yr wythnos hon.

Tan yn ddiweddar ofnwyd y costiai'r gwelliannau dros £2,000 i bob un o'r 59 tŷ ar y stad. Ond, diolch i ymgyrchu'r ddau gynghorydd sir lleol, cytunodd Cyngor newydd Gwynedd i glustnodi £70,000 o'i goffrau i anrhydeddu addewid cyn-gyngor Arfon mewn llythyr i'r trigolion na chostiai'r draeniau newydd fwy na thua £1,000 y cartref.

Meddai'r Cynghorydd Charles Wyn Jones, *'Roedd o'n fater o egwyddor i mi fod y cyngor newydd yn cadw at addewid ei ragflaenydd, ac rwy'n falch o ddweud fod Pwyllgor Tai a Gwarchod y Cyhoedd Cyngor Gwynedd wedi derbyn fy nghynnig yn unfrydol, a'r Pwyllgor Polisi wedi rhoi sêl ei fendith, ddiwedd mis Gorffennaf.'*

Adeiladwyd Stad Glanffynnon ac Afon Rhos yn hanner cyntaf y 70au gan yr adeiladydd lleol, G. Lloyd Hughes. Erbyn dechrau'r 80au daeth diffygion mawr yn y draeniau i'r amlwg a

sefydlwyd cymdeithas o drigolion y stad i drefnu ymgyrch i gael yr adeiladydd i'w trwsio. Yn 1981 gorchmynodd Barnwr Uchel Lys i'r gwaith gael ei wneud gan yr adeiladydd o fewn dwy flynedd. Yna, ddwy flynedd yn ddiweddarach, â'r gwaith yn dal heb ei wneud, sicrhawyd dyfarniad ariannol yn ei erbyn. Fodd bynnag, aeth yr adeiladydd yn fethdalwr, ond llwyddodd Cymdeithas Glanffynnon ac Afon Rhos i gael swm o £40,000 tuag at y gwaith o'r cytundeb methdaliad.

Dechreuodd trafodaethau gyda chyn-gyngor Bwrdeistref Arfon gyda golwg ar iddynt hwy wneud y gwaith trwsio'r draeniau fel mater o iechyd cyhoeddus. Diwedd y rhan hon o'r saga fu i Gyngor Arfon sgrifennu at holl drigolion y stad yn dweud eu bod hwy yn gwneud hynny. Ond, yn ychwanegol i'r £40,000 a dderbyniwyd, fe gostiai rhwng £800 a £1,000 i bob tŷ ar y stad.

Yna, aeth pethau'n dawel tan yn gynharach eleni pan dderbyniodd y trigolion llythyr pellach gan olynydd Cyngor Arfon, sef Adran Dai Cyngor newydd Gwynedd, yn dweud fod y gwaith ar fin dechrau. Ond, roedd colyn yn y gynffon — gallai'r gwaith gostio llawer mwy na'r amcangyfrif gwreiddiol. Ac

(Parhad ar dudalen 19)



Henffych Brifardd



Gyda balchder a phleser y gallwn oll fel ardal longyfarch David John Pritchard o Nant Peris ar ei gamp arbennig yn ennill Coron Eisteddfod Genedlaethol Bro Dinefwr. Nid dyma'r tro cyntaf i'r Eco gael y cyfle i'w longyfarch, ac mae'n sicr na fydd y tro olaf. Llongyfarchiadau calonnog i'r Prifardd oddi wrth bawb o'n darllenwyr.

Llwybr Glas y Dorlan

Ers tro byd bu Wardeiniaid a swyddogion Parc Gwledig Padarn, Llanberis, yn ymwybodol o'r angen i baratoi llwybrau ar gyfer ymwelwyr llai abl. Ddiwedd Awst, wedi wythnosau o drefnu a gwaith caled, agorwyd Llwybr Glas y Dorlan, llwybr sy'n rhedeg ar hyd ochr Llyn padarn am dros 300 metr, ac yn arwain at y guddfan adar ar lan y llyn. Mae'n addas i'w ddefnyddio gan ymwelwyr o bob oedran a gallu corfforol. Fe'i cynlluniwyd yn arbennig i dderbyn cadeiriau olwyn, ac y mae'r un mor bosibl i rieni wthio pramiau ar hyd-ddo.

Dechreuwyd ar y gwaith yn ôl ym mis Chwefror pan aeth wardeiniaid y Parc ati i chwilio am grantiau o wahanol ffynonellau i ariannu prosiect o'r fath. Gwnaed yr holl waith cynllunio, gan gynnwys yr arwyddion i'w gosod ar y llwybr, o fewn y Parc ei hun. Ond roedd cynllun o'r fath yn gostus a chafwyd grantiau ariannol gan Weithgor Gwyrdd Cyngor Sir Gwynedd a chynllun Telecom Prydeinig 'Countryside for All'.

Aeth swyddogion y Parc ati hefyd i ennill cefnogaeth busnesau lleol a mudiadau eraill, a chafwyd rhodd ariannol,

(Parhad ar dudalen 2)



Un o arwyddion y llwybr newydd.

ECO'R WYDDFA

Rhif 226
MEDI 1996

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd
Cibyn, Caernarfon

Cyhoeddwyd gyda chymorth
Cymdeithas Gelfyddydau
Gogledd Cymru

SWYDDOGION A GOHEBWYR

GOLYGYDDOL
IWAN ROBERTS
LLEIFIOR, LLANRUG
Ffôn: (01286) 675649
JOHN PRITCHARD
CILFYNYDD, LLANBERIS
Ffôn: (01286) 872390

GOLYGYDD CHWARAEON

Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel.
(01248) 670115

DYDDIADUR Y MIS

Mrs Margaret Cynfi Griffith, Cynfi,
Deiniolen (870394)

FFOTOGRAFFWR

Gwynndaf Hughes, Glasgoed,
Llanrug (677263)

DATBLYGU LLUNIAU

Bryn Jones, Elidir, Allt Dewi,
Bangor (01248) 353337 neu
871925

TREFNYDD HYSBYSEBION

John Roberts, Bedw Gwynion,
Llanrug (675605)

TREFNYDD BWNDELU

Ann Gibbins, Lodj Plas Tirion,
Pontrug (673696)

TREFNYDD ARIANNOL

Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST

Mrs Olwen Llywelyn, Pant Afon
Bach, Llanrug (650200)

TREFNYDD PLYGU

Shioned Griffith (650570)

GOHEBWYR PENTREFI

Dyma'r bobl i gysylltu â nhw
yn eich ardaloedd.

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran
(01248 670726)

BRYNREFAIL: Mrs Lowri Prys
Roberts-Williams, Godre'r Coed
(870580)

CAEATHRO: Clive James, Hafan,
Bryn Gwna (677438)

CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen,
Bodafon, Ceunant (650799)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glanrafon (872275)

DEINIOLLEN: W. O. Williams,
6 Rhydfadog, Deiniolen (871259)

DINORWIG: Glyn Tomos, Pen y
Bwlch, Dinorwig (870576)

LLANBERIS: Gwyneth ac Eifion
Roberts, Becws Eryri (870491)

LLANRUG: Eryl Roberts, 3 Bryn
Moelyn (675384)

NANT PERIS: Elwyn Searell Jones,
Dwyfor (870440)

PENISARWAUN: Mrs Ann Evans,
Sycharth (872407)

TAN-Y-COED: Miss Anwen Parry,
Ael-y-Bryn (872276)

WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts,
Pantafon, Waunfawr (650570)

Y RHIFYN NESAF

Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg
NOS IAU, MEDI 26
Deunydd i law'r
golygyddion perthnasol
NOS LUN, MEDI 16
Os gwelwch yn dda

DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO

Trefnydd Plygu: Mrs Shioned Griffith, Pantafon, Waunfawr, (01286) 650570

RHIFYN	DYDDIAD PLYGU	BLE?	CYSYLLTU A	RHIF FFÔN
HYDREF	MEDI 26	PENISARWAUN	Mrs Ann Evans	872407
TACHWEDD	HYDREF 31	LLANBERIS	Mr Gwilym Evans	872034
RHAGFYR	TACHWEDD 28	CAEATHRO	Mr Clive James	677438

Llythyrâu

DIOLCH O BEN-DRAW'R-BYD

63 Lightfoot Crescent
FLOREY ACT 2615
AWSTRALIA

Annwyl Olygydd,

Yn ddiweddar cawsom yma yn
Awstralia y pleser o gael Hogia'r
Wyddfa gydag Annette Bryn Parri a'i
gŵr, Gwyn, a'r tri plentyn Heledd,
Ynry a Bedwyr ac hefyd Roalind a
Myrddin.

Roedd pawb wedi cael amser
bendigedig ac wedi mwynhau y
cyngerdd yn arw iawn. Ychydig o
bobol oedd yn siarad Cymraeg gan
fod y rhan fwyaf yn Awstraliaid ond
roedd pawb wedi mwynhau ei
hunain yn ardderchog iawn. Roedd
yn bleser mawr eu cael yma.

Cawsom amser difyr iawn yn hel
atgofion am yr hen amser cyn i ni
ymadael am Awstralia yn 1958. Mae
hiraeth mawr arnom i gyd. Beth
wnaeth i ni feddwl am ymadael â
Chymru erioed?

Buasem yn hoffi diolch o waelod
ein calonnau iddynt i gyd am ddwâd
i ben-draw'r-byd i'n gwneud ni yn
hapus iawn.

LLWYBR GLAS Y DORLAN

(Parhad o'r dudalen flaen)

defnyddiau a gweithwyr i helpu gyda'r
gwaith trwm gan y Grid Cenedlaethol.
Yn yr un modd bu Cwmni Rheilffordd
Llyn Padarn yn cynorthwyo gyda peth
o'r gwaith technegol yn eu gweithdai
gerllaw. Mudiadau a busnesau eraill a
fu'n noddî'r cynllun oedd Yr
Asiantaeth Amgylcheddol, DMM
International, EuroDPC, Outside,
Gwesty'r Fictoria, siopau Joe Brown a
Fframiau Elwyn Pritchard, o Lanberis.

Agorwyd y llwybr yn swyddogol
ddydd Mawrth, 27 Awst, gan y
Cynghorydd Pat Larsen, Is-gadeirydd
Cyngor Sir Gwynedd. Yn bresennol
hefyd roedd y Cynghorydd Iwan Wyn
Jones, Cadeirydd Adain Hamdden
Gwasanaethau Technegol Gwynedd,
a Ms Tracy Cougherty a gynrychiolai
Grŵp Mynediad Arfon, ynghyd â
chynrychiolwyr o'r holl fudiadau a fu'n
noddî'r cynllun, a chynghorwyr lleol yr
ardal.

Cynlluniau pellach i'r llai abl

Ond nid dyna ddiwedd y llwybr!
Eisoes mae cynlluniau ar y gweill i
ymestyn y cyfleusterau o fewn y Parc,
ac y mae'n fwriad gan y wardeiniaid
i gwblhau prosiect arall erbyn haf
1997.

Y gobaith yw ymestyn Llwybr Glas
y Dorlan dros bont y lagŵn gan ddilyn
y glannau yn ôl tua therfyn y
rheilffordd. Gan gadw at derfyn y
rheilffordd gallai'r llwybr wedyn
arwain yn ôl i'r maes parcio ger yr orsaf
drên, ac i mewn i Chwarel Vivian.
Byddai llwybr o'r fath yn galluogi pobl
llai abl i deithio yr holl ffordd o

Diolch hefyd i Gwyn, Annette a'r
plant am y cynger i Mam yng
nghartref hen bobol. Roedd Mam
(Ellen Jones) a'r bobol i gyd wedi
mwynhau eu hunain.

Gobeithio y down chi yma eto cyn
bo hir, mi fydd yma groeso mawr i
chwi.

Diolch yn fawr iawn i chwi.

Oddi wrth,

BRENDA, CYNTHIA, MARGARET
a DOUGLAS (Jones)
gynt o Tan-y-Merddyn,
Ceunant, Llanrug

Hanes Disgyblion Ysgol Brynrefail 1918-39

Annwyl Olygydd,

Bellach mae golwg y bydd y gyfrol
ar hanes Ysgol Brynrefail 1918-39
yn ymddangos yn ystod y gwanwyn
nesaf. Bu'r cyn-ddisgyblion yn
rhyfeddol o garedig yn llenwi a
dychwelyd yr holiaduron a anfonwyd
atynt, ac yn awr mae gennym un
gymwynas arall i ofyn iddynt: mae
angen lluniau ar gyfer y gyfrol —
timau pêl-droed, hoci, criced,
dosbarthiadau neu athrawon —
unrhyw luniau o'r cyfnod.

Fe ofelir am y lluniau a chânt eu
dychwelyd yn ddiogel. Pe carech
weld llun eich tad a mam, neu eich
nain a'ch taid yn y gyfrol dyma'r

amgylch ardal y Gilfach Ddu.

Byddai ehangu'r llwybr i'r hyd
hwnnw yn golygu crin dipyn o gost ac
nid yw adnoddau ariannol y Parc yn
ddigonol i'w gynnal i gyd, a'r gobaith
yw y ceir mwy o noddwyr erbyn y tro
nesaf. Dyna her felly i fudiadau a
busnesau lleol. Os oes unrhyw un
ddiddordeb mewn noddî 'Llwybr 97'
yna cysylltwch â'r wardeiniaid yn Hen
Ysbyty'r Chwarel (01286) 870892.

Mae Cwmni Rheilffordd Llyn
Padarn hefyd yn y broses o addasu dau
gerbyd trên i dderbyn cadeiriau olwyn.
Mae'r gwaith addasu hwn yn cael ei
wneud gan weithwyr y cwmni yn y
Gilfach Ddu ac fe fydd y cerbydau yn
barod erbyd dechrau tymor 1997.

IEUAN WILLIAMS Glanffrwd DEINIOLLEN (01286) 870484

- ★ Bysiau o 12 i 53 sedd
- ★ Teithiau Lleol a Thramor
- ★ Gwaith Contract
- ★ Telerau arbennig i
bensïynwyr, myfyrwyr
a phlant ysgol.

cyfle! Gellir eu hanfon at naill ai:

T. M. Bassett
2 St James Drive
Bangor, Gwynedd LL57 2ED
neu

Dr H. G. Williams
Ysgol Cymdeithaseg a
Pholisi Cymdeithasol
Prifysgol Cymru
Bangor, Gwynedd LL57 2DG
Gyda diolch ymlaen llaw.

Yn gywir,
T. M. BASSETT, H. G. WILLIAMS

RHODDION

£10: Er cof am dad a mam annwyl
— W. T. a Mary E. Jones, Ysgoldy,
Clwt-y-bont — gan eu merch
Dorothy May Jones, Caernarfon;
Clwb Ffermwyr Ieuainc
Caernarfon a'r Cylch; Mrs J.
Parry, Morannedd, Hermon,
Llanrug.

£5: Phylis Owen, Goronwy a
theulu'r diweddar Hywel Owen,
Cremlyn, Bethel; Olwen ac Alun
Hughes, 31 Stad y Glorian, Porth
Amlwch; Mrs Eirlys Ellis, 12 Field
Terrace, Llanberis; Gordon a
Beryl Owen, 46 Maes Padarn,
Llanberis; Mr William Roberts,
Hyfrydle, Ffordd Capel Coch,
Llanberis; Mrs Nellie Hughes, 4
Gwyrfa Terrace a Mrs J. Roberts,
96 Pentre Helen, Deiniolen; Eryl,
Gwynfor, Menai a Meirion, teulu
y ddiweddar Gracie Thomas, 24
Cae Garreg, Caernarfon; Mrs D.
Roberts, Fron Oleu, Llanberis.

£3: Eryl M. Jones, Y Rhos, Bethel;
Olwen Roberts, Aroged, Stryd
Warden, Llanberis; Ann Roberts,
22 Stryd Goodman, Llanberis; Mrs
Joan Griffiths, Pant Tirion,
Llanrug.

£3: Miss M. Griffith, Bangor; Mrs
Ellen Wright, Tregarth; Y Parchg
I. Lewis, Talsarnau.

£2.50: Iolo a Bethan, 10 Bryn
Golau, Waunfawr.

£2: Mrs M. Lewis, Madryn,
Llanrug. Ymddiheurwn am ei
hepgor o restr y rhifyn diwethaf.

Cefnogwch ein Hysbysebwyrr

I drin a thrwsio
pob math o
beriannau gwnïo
**MENAI SEWING
MACHINE CENTRE**
40 Stryd Fawr
PORTHAETHWY
Ffôn: (01248)
714043 neu
(01286) 674520
Edau, Nodwyddau
ac ati mewn stoc

GWOBR I'R GOF



Dylan Cadwaladr Parry

Enillodd gôf ifanc y drydedd wob, a hynny ar ei ymgais gyntaf, yn Sioe Frenhinol Cymru, Llanellwedd, eleni.


Cynhyrchodd Dylan Cadwaladr Parry, 30 oed, a fu'n ôf yn Amgueddfa Lechi Cymru, Llanberis, ers deuddeng mlynedd bellach, lwy garu fawr wedi ei gwneud o fetel ar gyfer cystadleuaeth agored artistig y gofaint.

'Roeddwn i wedi cystadlu yn Eisteddfod Dyffryn Ogwen gyda chenhinlen Pedr fetel y llynedd,' meddai Dylan. 'Cefais y wob gyntaf efo hwnnw ac felly fe benderfynais wneud rhywbeth ar gyfer y Sioe Genedlaethol eleni. Roedd y syniad o lwy garu yn apelio ataf oherwydd ei Chymreictod, a meddyliais y byddai hi'n ddifyr ceisio defnyddio metel i wneud rhywbeth a wnaed yn arferol mewn pren.'

Mae Dylan wedi cynhyrchu nifer

o eitemau gwreiddiol tra'n gweithio yn yr Amgueddfa, er enghraifft, canhwylbrennau, seddau, basgedi crog, ac yn y blaen, ac fe'u gwerthir yn siop yr Amgueddfa ym Mharc Padarn. Gall y cyhoedd weld Dylan wrth ei waith yn yr Amgueddfa Lechi yn Llanberis.

DAWNSIO yn y Gilfach Ddu



Rhai o'r dawnsiwr yn perfformio yn y Gilfach Ddu.

Cynhaliwyd un o ddigwyddiadau dawns mwyaf ffres a chreadigol yr haf yn Amgueddfa Lechi Cymru yn y Gilfach Ddu yn ystod mis Awst.

Ffrwyth cydweithio rhwng *Diversions*, cwmni dawns o Gymru sydd wedi ennill bri rhyng-wladol, ac Amgueddfa ac Orielau Cenedlaethol

Cymru oedd y digwyddiad hwn.

Aed ag ymwelwyr drwy wahanol weithdai yr Amgueddfa a chawsant fwynhau perfformiad cyffrous gan ffigyrau ysbrydol yn dawnsio ar y llechfaen i gyflwyno dawns y gloesen Gymreig tra gwahanol. Roedd y cwmni o ddawnsiwr — sy'n amrywio o ran oedran o bedair i chwedeg pump — yn cyflwyno dawnsfeydd gyda'r thema 'cenedlaethau'.

Roedd y digwyddiad hwn yn rhywbeth hollol newydd i'r Amgueddfa Lechi, fel yr esboniodd Julie Williams, y swyddog marchnat a hyrwyddo:

'Nid digwyddiad lle mae pawb yn eistedd a gwyllo perfformiwr oedd hwn. Rhaid oedd i'r bobl ddilyn y dawnsiwr ar eu taith drwy'r Amgueddfa. Wrth fynd drwy'r gweithdai roedd y gwylwyr yn profi gwahanol agweddau ar yr ystafelloedd a welent a hynny yn ychwanegu at eu profiad o'r Amgueddfa. Dyma'r tro cyntaf i ni gynnal rhywbeth fel hyn yma, ac rydym wrth ein bodd.'

Meddai Jem Treays o gwmni dawns *Diversions*: 'Profiad hynod o gyffrous yw gweddnewid lle a'i ddefnyddio mewn ffordd hollol wahanol. Ein bwriad oedd creu symudiad ymhob man o'n cwmpas.'

ANTUR WAUNFAWR YN AIL-GYLCHU DODREFN

Dodrefn dros ben a rhy dda i'w taflu? Os mai dyna eich sefyllfa bydd cynllun newydd Gwasanaeth Ail-gylchu Gwynedd, sef adran o Antur Waunfawr o ddiddordeb i chi. Mae'r gwasanaeth, sy'n rhedeg ers dwy flynedd bellach, yn gweithio mewn partneriaeth â Chyngor Gwynedd, GISDA, ac eraill, i gyflenwi dodrefn ail-law safonol ar gyfer unigolion a grwpiau sydd angen cefnogaeth. Bydd dau o weithwyr ac un rheolwr yn gweithio ar y cynllun

bob dydd Llun o fis Medi ymlaen yn casglu a dosbarthu gwelyau, wardrobs, cadeiriau, a.y.y.b. Mae Antur Waunfawr yn awyddus i bwysleisio mai datblygiad cymunedol ar gyfer y gymuned yw'r cynllun yma ac **nid gwasanaeth casglu sbwriel**. Os oes gennych ddodrefn o safon i roddi i'r cynllun (**dim nwyddau trydanol**) cysylltwch â **Huw Davies (01286) 355112**.

PERERINDOD

a thaith gerdded nodedig

Trefnwyd pererindod ar ffurf taith gerdded nodedig o Ddeiniolen i Abergwyngregyn ar ddydd Sul, 8 Medi. Ar y daith byddwn yn cario croes, a wnaed yn arbennig ar gyfer yr achlysur, o Eglwys Crist Llandinorwig am y deng milltir sydd rhngom â'n gefaill eglwys, Eglwys Sant Bodfan, Abergwyngregyn.

Bydd y daith yn cychwyn o Ddeiniolen am 9.30 a.m., a'n gobaith yw cyrraedd Aber rhywdro yn ystod y pŵn. Byddwn wedyn yn ymunw mewn gwasanaeth byr gyda'n cyfeillion yno cyn mynd ymlaen, ar fws, i Eglwys Crist, Llanfairfechan, ar gyfer gwasanaeth gwylmabsant y Santes Fair am 6 p.m., ac fe ddychwelir o Lanfairfechan ar y bws.

Mae'r daith hon yn rhan o weithgaredd plwyf Llandinorwig ym mlwyddyn dathlu esgobaeth Bangor, ac yn rhan hefyd o gyfarfodydd gefeillio rhngom â phlwyfi Llanfairfechan ac Abergwyngregyn.

Os am fwy o fanylion cysyllter â'r **Parchg Tegid Roberts, Arwel, Llanrug**.

GŴYL GERDD DANT Caernarfon a'r Cylch 1996

Tynnwyd raffl yr Ŵyl ym mhabell y Gymdeithas Gerdd Dant ar faes Eisteddfod Bro Dinefwr, ddydd Sadwrn, 9 Awst. Dymuna'r pwyllgor cyllid ddiolch i bawb a fu mor weithgar gyda'r raffl. Dyma'r enillwyr:

1. Penwythnos ddirgel i ddau gan gwmni'r Seren Arian: Mrs Helen Jones, Bod Hyfryd, Caernarfon.
2. Ffôn a pheiriant ateb: Mrs Roberts, Hafren, Stryd y Faenol, Caernarfon.
3. Brodwaith: Joan Grant, Caernarfon.
4. Lamp gan Castle Gifts, Llanberis: Mr G. Williams, Sgiwen, Morgannwg Ganol.
5. Plât yr Ŵyl: Mr E. Hughes, Awel Menai, Caernarfon.
6. Taleb £10 gan Carters, Caernarfon: Mr R. E. Evans, Beddau Mawrth, Pentraeth, Môn.

Cynhelir cyngerdd gan Gôr Seiriol yn Neuadd Goff Y Felinheli, nos Wener, 13 Medi.

Nos Sadwrn, 14 Medi, cynhelir Helfa Drysor a noson gymdeithasol a trefnwyd gan Walter a Menai Williams, gan gychwyn am 5.30 o'r gloch. Am fwy o fanylion cysyllter â (01248) 601167 cyn nos Fawrth, 10 Medi.

MAE'R SAMARIAID YN GWRANDO YN ABBEY ROAD



BANGOR (01248) 354646

PLAID CYMRU
Rhanbarth Arfon

DYDD AGORED Swyddfa Caernarfon

Gwahoddir aelodau a chyfeillion Plaid Cymru i'r Dydd Agored a gynhelir yn y Swyddfa, 8 Stryd y Castell, Caernarfon

DDYDD GWENER, 27 MEDI rhwng 10.30 a.m. a 3.30 p.m.

Bydd bwrdd gwerthu

Cofiwch alw — bydd croeso cynnes yn eich aros

Cefnogwch ein Hysbysebwy

CYRSIAU HWYLIO/CANWIO

Ar gyfer disgyblion Ysgolion Uwchradd yn ystod gwyliau hanner tymor yr hydref 1996

Cysylltwch â **HUW JENKINS**
Glan-llyn (01678) 540607

Cyfeiriad:
Gwersyll Glan-llyn
Llanuwchllyn, Bala
Gwynedd LL23 7ST

CHWILOTA CYFRAITH A THREFN



Yn ystod mis pan gafwyd cawdel arall gan yr Ysgrifennydd Cartref, a phosibilrwydd o dalu degau o filoedd o bunnau mewn iawndal i garcharorion a gadwyd yn y carchar am ormod o amser, diddorol edrych yn ôl a gweld beth oedd cosbau'r oes o'r blaen am wahanol droseddau. Yn ystod wythnosau diwethaf Awst bûm yn pori yn hen gofnodion Llysoedd y Sesiwn Chwarter. Yn anffodus nid yw'r holl gofnodion ar gael ac, felly, yn aml mae'n anodd darganfod beth yn union oedd rhai achosion, a beth yn hollol a ddigwyddodd mewn achosion eraill.

Yn niwedd 1698 a dechrau 1699 mae'n amlwg fod rhyw ffræ fawr wedi bod rhwng nifer o bobl o Lanrug a Chaernarfon. Ni ellir dweud i sicrwydd beth oedd oedd y ffræ ond, o astudio galwedigaethau'r bobl a ymddangosodd o flaen y Llys, mae'n bosib dyfalu mai achos yn ymwneud â'u gwaith oedd asgwrn y gynnen.

Roedd nifer o'r rhai oedd yr ymddangos o flaen eu gwell yn wneuthurwyr brethyn (*feltmakers* yw enw'r Llys arnynt). Rhybuddiwyd John Parry o Lanrug (*gentleman*) a William Rowland o Gaernarfon (*iwmôn*) i, 'behave themselves well' tuag at Gruffyth Parry o Gaernarfon (*feltmaker*).

Mae William Rowland hefyd yn cael ei wysio i ymddangos yn y Llys gyda John Ellis (saer-maen o Gaernarfon), ac i gadw'r heddych yn y cyfamser tuag at Thomas Williams, Evan ap Robert ac Evan Thomas (pob un ohonynt yn wneuthurwyr brethyn). Ar yr union ddyddiad mae yna warant yn cael ei chyhoeddi i ddal y tri uchod, Gruffyth Parry a rhyw William Hughes a'i wraig, Gwen (pob un yn *feltmakers*) am ymosod ar John Parry a William Rowland.

Mae William Hughes a Gwen, ei wraig, hefyd yn cael eu gwysio i ymddangos yn y Llys ar gyhuddiad o 'felony and misdemeanour'. Yn anffodus does

dim cofnodion ar gael i adrodd beth oedd hanes y ffræ gymhleth hon!

Fisoedd lawer yn ôl bellach soniais am rai o ddynion cryf y fro, ac yn eu plith y brodyr Robert David Luke ac Owen David Luke o ardal y Waunfawr a Llanrug. Adroddai traddodiad eu bod yn ymladdwyr o fri. Mae'n ymddangos fod gwirionedd yn y traddodiad. Yn 1763 mae Robert David Luke yn cael ei gyhuddo o ymosod ar Thomas Williams o blwyf Llanfair-is-gaer a William Humphrey o Lanrug. Ei frawd, Owen David Luke oedd un o'r meichiau yn y ddau achos, gan dalu cyfanswm o £15 i gyd.

Ar droad y ganrif, yn 1799, mae merch ddibriad o Llanddeiniolen, Catherine Thomas, yn cael ei chyhuddo o ddwyn hances boced las a gwyn, a betgwn wlannen gwerth deg ceiniog oddi ar Hugh Thomas o'r un plwyf. Mewn ail achos roedd yn wynebu cyhuddiad o ddwyn pais wlannen gwerth deg ceiniog oddi ar Thomas Jones, Llanddeiniolen. Fe'i cafwyd yn euog ar y ddau gyhuddiad a'i dedfrydu i gael ei chwipio o flaen y Llys yng Nghaernarfon.

Tua'r un cyfnod crogwyd rhyw greadur o'r enw Huw Sir Fôn am ddwyn ceffyl o Ty'n Llan, Llanrug. Roedd y crogbren bryd hynny ar Forfa Seiont yng Nghaernarfon.

MANION O'R MYNWENTYDD

Sylwais fod arwyddion ar ochr y ffordd fawr ger y Gors Bach yn hysbysu'r teithiwr o gyfeiriad mynwent eglwys plwyf Llanddeiniolen, ond mai Mynwent Deiniol y'i gelwir. Onid Deiniolen yw'r nawddsant? Ni allaf ond dyfynnu'r Athro W. J. Gruffydd: 'Beth a ellir ei ddywedyd wrth rhyw tawdriness rhad a di-hunan-barch fel hyn? . . . Beth sydd i'w feddwl o offeiriad sy'n camenwi nawddsant ei eglwys ei hun?' (allan o *Hen Atgofion*).

Cyfeiriwyd yn aml at fynwent Capel Caeathro fel 'Macpela'r Methodistiaid' — ond tybed faint o Fethodistiaid sydd wedi eu claddu yno? Mae dros ugain o weinidogion yr enwad yn gorffwys yno, a llu mawr o flaenoriaid. Pwy sy'n fodlon eu cyfri? Ac a oes mwy yn y fynwent hon na mynwentydd eraill o'r un maint? Diddorol nodi fod yno genhadwr hefyd, sef Y Parchg William Evans (1845-82). Ond nid dramor y bu hwn yn cenhadu ond yn Mellom, Cumberland. Cysylltiad cenhadol arall â Chaeathro yw Griffith Hughes, Cassia. Roedd ei daid, William Jones, yn dod o Langwna; a'i fam, Catherine, yn gyfnither i'r enwog fathemategwr, Griffith Davies, Llundain, a ymladdodd achos tyddynwyr Rhostryfan a Rhosgadfan amser helyntion Cau'r Tiroedd Comin.

ENWAU I LUN EISTEDDFODOL

Yn rhifyn Mehefin o'r *Eco* ymddangosodd llun o barti cydadrodd a ddaeth yn drydydd yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Wrecsam 1957. Anfonwyd yr enwau i mi gan Mrs Fleming, Rhydfadog, Deiniolen. 'O Ddinorwig roedd y parti cydadrodd, yn cael eu hyfforddi gan Mrs Gwen Lloyd Roberts, Blue Peris Farm gynt (Anti Gwen fel roedd y plant yn ei hadnabod). Y plant yn y llun yw Nancy, Helen, Hefina, Ann, Marian Wyn a Christine. Does yr un ohonynt yn byw yn Ninorwig erbyn heddiw. Mae Hefina ac Ann ei chwaer yng Nghaernarfon; Helen (merch Mrs Fleming) yn Llanrug; Christine yn y Groeslon; a Nancy a Marian Wyn yn Lloegr.'

HEL MWYAR DUON

Mae'r tymor mwyar duon yn hwyr eleni, a bydd llawer wedi darllen yr *Eco* cyn blasu'r jam neu'r jeli cyntaf. Ond wyddoch chi fod yna werth hanesyddol i'r mwyar duon? Ewch allan i hel yn ystod y mis nesaf ac fe gewch wybod yr hanes yn y rhifyn nesaf.

Cofiwch anfon gair, hanesyn, llun neu ymholiad i Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug (01286) 673515.

**Cefnogwch ein
Hysbysebwy**

R. M. (DIC) PARRY

PEINTIWR AC ADDURNWR
PRISIAU RHESYMOL

TAWELFA, PENISARWAUN

Ffôn: (01286) 870846



ALOE VERA

Am well iechyd yn naturiol, profiwch nerth **ALOE VERA**. Canfuwyd iddo roi esmwythâd i lawer sy'n dioddef o afiechydon cyffredin fel:- Cryd y Cymalau, Mygdod, Dŵr Poeth, I.B.S., Afiechydon y Croen, Diffyg Egni Afiechydon yr Arennau, Pwysau Gwaed a.y.y.b. am fwy o fanylion, cysylltwch ag Alun, Ffôn: (01248) 670746

E. W. Pritchard CENTRAL GARAGE Llanberis

Ffôn: (01286) 870202 a 870272

TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU
GWASANAETH TACSI

Gwasanaeth o'r Safon Uchaf am Brisiau Rhesymol



Gwasanaeth Trylwyr
gan y bobl **BROFFESIYNOL**
Gwasanaeth Personol Cyfeillgar i **CHWI**
Y Gwasanaeth Technegol Gorau
i'ch **CAR**. Cystal â
Gwasanaeth Prif Ddeliwr
Felly, pa gar bynnag ydych
CHWI yn ei yrru,
o Audi i Zastava

GEMINI
SERVICE CENTRE

Car neu Fan
Petrol neu Disel
Carb. neu Chwistrelliad

bydd ein Gwasanaeth
ni yn arbed eich
ac yn ymestyn oes eich car

AVW YSTAD CIBYN
CAERNARFON (01286) 673559



BOSCH
SERVICE

LLANRUG

Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn. Ffôn: (01286) 675384

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed. Ffôn: (01286) 677263



Y Parch. H. Gwynfa Roberts, Mr Siencyn Griffiths, y Parch. Dafydd Lloyd Hughes a'r Parch Harri Parri ar achlysur sefydlu'r Parch. Dafydd Lloyd Hughes yn weinidog Capel y Rhos.

Dymuniadau gorau i Mr a Mrs John Owen (Penrhyn Bach gynt) yn eu cartref newydd, sef Erw Wen, Ffordd Glan Moelyn. Gobeithio y byddwch yn hapus iawn yn eich cartref newydd.

Llongyfarchiadau i holl bobl ifanc y pentref ar eu canlyniadau ardderchog yn yr arholiadau ysgol a cholegau. Pob dymuniad da iddynt.

Gwaeledd: Mae amryw o'r pentrefwyr yn dioddef o anhwylder a dymunwn wellhad llwyr a buan iddynt i gyd.

Cydymdeimlwn â Mr Robin Parry, 7 Hafan Elan; Mrs J. M. Jones, 12 Hafan Elan; a Mr N. Roberts, 3 Hafan Elan, yn eu profedigaethau o golli anwyliad yn ystod yr haf.

Cydymdeimlwn hefyd â Mr Harry Martin, Fair Haven, yn ei brofedigaeth o golli ei fam ym Modelwyddan yn ddiweddar.

Llongyfarchiadau i Iona Williams, Antmor, Bryn Moelyn, a fu yn America yn chwarae pêl-droed gyda Thim Merched Bangor ym mis Gorffennaf. Da iawn ti, Iona.

Plaid Cymru: Diolch i ymdrechion Dafydd Wigley, A.S., a'r Cyngor Cymuned, da clywed fod pentref Llanrug yn awr yn cael ei ystyried yn ardal wledig. Golyga hyn y bydd y Swyddfa Bost a siopau lleol yn derbyn rhywfaint o ostyngiad yn eu trethi yn y dyfodol.

Bydd cyfarfod cyntaf y tymor yng Nghanolfan Penisarwaun, nos Fercher, 25 Medi, am 7.30 o'r gloch. Y siaradwr fydd Eurig Wyn, a bydd yn sôn am ei brofiadau fel un o gynrychiolwyr Cymru yn Ewrop. Croeso cynnes iawn i bawb.

Yr Wyl Gerdd Dant: Mae'r Wyl o fewn dau fis i'w chynnal yn Stiwdio Barcud yng Nghaernarfon. Yn ôl ym mis Ionawr eleni hysbyswyd ni yn Llanrug mai'r targed ariannol fyddai £800. Mae llawer wedi ymateb drwy roddion ariannol ac os oes rhywun yn dymuno cyfrannu a wnewch chi gysylltu ag un o'r canlynol, cyn diwedd y mis hwn, os gwelwch yn dda: Mrs Menna Williams, Fferm Minffordd; Mrs Bethanne Williams, Disgwyllfa; Mrs Megan Roberts, Gregynnog; Mrs Meirwen Lloyd, Afallon; Mr Gareth Williams, Bron Wenda.

Merched y Wawr: Bydd y gangen yn

cyfarfod yn Ysgol Gynradd Llanrug, nos Fawrth, 10 Medi, am 7.30 o'r gloch. Croesewir chwi yn gynnes i ymuno â ni. Y mae rhaglen amrywiol a diddorol wedi'i threfnu ar gyfer y tymor, fel a ganlyn:

Medi 10: Ar Feic yn Seland Newydd, gan Geraint Percy Jones.

Hydref 1: Ymweliad â Theatr Gwynedd — 'Tua'r Terfyn'.

Tachwedd 12: Paratoi ar gyfer y Nadolig — addurno cacennau a chreffft siwgr gyda Delian Williams. Rhagfyr 10: Noson yng nghwmni'r Prifardd Myrddin ap Dafydd.

Ionawr 14, 1997: Gemwaith — Mrs Esme Dyson a Karen.

Chwefror 11: Sut i ddarllen papur newydd — Bethan Jones Parry.

Mawrth 11: Dathlu Gŵyl Ddewi yng nghwmni 'Cywair'.

Ebrill 8: Ymweliad â Stiwdio'r Capel Mawr.

Mai 13: Cwilio — Julie Jones; Cyfarfod Blynnyddol.

Mehefin 10: Ymweliad â Pili Palas.

Oni nodir yn wahanol cynhelir y cyfarfodydd yn Neuadd Ysgol Gynradd Llanrug am 7.30 o'r gloch.

Diolchiadau:

Dymuna Joan Griffiths, Pant Tirion, ddiolch o galon i'w pherthnasau, ffrindiau a chymdogion am yr holl anrhegion, cardiau, galwadau ffôn a phob cymorth a dderbyniodd yn ystod y misoedd diwethaf. Diolch hefyd i staff Meddygfa Llanrug a Llanberis.

Dymuna Dran, Doris a Ronnie, Gwynfryn, 4 Ffordd Glanffynnon, ddiolch o galon i'w teulu, ffrindiau a chymdogion am eu caredigrwydd a'u cymorth trwy weithred a gweddi. Diolch yn fawr iawn i bawb.

Dymuna Mrs J. Parry, Morannedd, Rhes Hermon, ddiolch o galon i'w theulu, cyfeillion a ffrindiau am y llu cardiau, galwadau ffôn ac anrhegion a dderbyniodd yn ystod ei gwaeledd a'i llawdriniaeth yn ddiweddar.

Diolch yn fawr hefyd i Ward Tryfan, Ysbyty Gwynedd, meddygon Waunfawr a nyrsys yr ardal. Diolch yn fawr i bawb.

Cydymdeimlwn â theulu y ddiweddar Mrs Hughes (Wardner gynt) a fu farw yn ddiweddar wedi blynyddoedd o ofal caredig gan ei mherch Mrs Eirwen Darwood, Glanffynnon a'r teulu.

Llwyddiant yn y Genedlaethol: Llongyfarchiadau calonnog i Ffion Orwig, Buarthau, a ddaeth yn drydydd anrhydeddus yng Nghystadleuaeth Goffa y Fonesig Herbert Lewis yn Eisteddfod Genedlaethol Bro Dinefwr. Pob dymuniad da eto i'r dyfodol Ffion.

Dofednod Gorau Cymru: Bu'r haf hwn yn un llwyddiannus iawn i deulu Buarthau. Llongyfarchiadau i Irfon Thomas gyda'i ieir arbennig. Enillodd dlws pencampwr gorau Cymru ac ail-orau yn Sioe Frenhinol Cymru yn Llanelwedd, ym mis Gorffennaf. Cyflawnodd yr un gamp wythnos yn ddiweddarach yn Sioe Gogledd Cymru, Caernarfon.



Irfon Thomas gydag un o'i ddofednod buddugol.



Ffion Orwig a ddaeth yn drydydd yng Nghystadleuaeth Goffa y Fonesig Herbert Lewis yn Eisteddfod Genedlaethol Bro Dinefwr.

EISTEDDFOD LLANRUG


TLWS YR IFANC (Blwyddyn 3 - 9)

Cyflwynir Tlws a £10 i'r cynnyrch gorau yn yr adran hon (gyda chymorth Cyngor Celfyddydau Cymru). Y gwaith i'w wneud yn yr Ysgol Gynradd, nos Fercher, Medi 25ain, rhwng 5.00 a 9.00.

MEDAL LLENYDDIAETH (Blwyddyn 10 - 13 ac unrhyw un o dan 19 oed)

Cyflwynir Medal ac £20 i'r cynnyrch gorau yn yr adran hon (gyda chymorth Cyngor Celfyddydau Cymru). Y cyfansoddiadau llenyddol i'w hanfon i Rolant Wynne, Fron Hyfryd Uchaf, Ffordd yr Orsaf erbyn nos Fercher, Medi 25ain.

Am eich
**ANGHENION
ADEILADU**
mawr a bach
MASNACHWYR
A "D.I.Y."
am
BRISIAU
CYSTADLEUOL
DEWCH AT



BRYN

(B & K Williams)

**Yr Hen Ysgol
Glanmoelyn
LLANRUG**

Ffôn: 677482

DYDDIAU'R CEILIOG RHEDYN gan Y GWALCH

Pan oedd fy ngwraig a minnau yn ddi-gartref yn swydd Worcester, penderfynom gael carafan, ond dim ond hanneru'r broblem wnaeth hynny. Roedd hi'n anodd cael lle i'w gosod, er inni grwydro hyd a lled y sir yn chwilio, 'Dihidio oedd eu hateb / Dim gradd o loes, dim grudd wleib'.

Hynny ydi — hyd i ni fynd heibio i ffarm o faint nepell o'r ddinas ei hun. Roedd yna rhyw hen fachgan mewn het wellt ar y buarth a mwstas mawr llydan ganddo, y mwyaf annhebyg ar yr olwg gyntaf i ddisgwyl trugaredd ganddo. Pan ddywedais fy neges wrtho, fodd bynnag, ddwedodd o ddim y naill ffordd na'r llall ond gwahoddodd ni i'r tŷ.

Roeddem mewn cegin-fyw helaeth, blaen, fel ag yr oedd yn gyffrein mewn ffermdai. Roedd yna goedyn mawr ar y tân ac eisteddasom wrtho yn sgwrsio am hyn a'r llall, ond soniwyd dim am y garafan. Toc, daeth dynes dal, osgeiddig i mewn gyda gwallt yn troi at fritho, a chyflwynwyd ni iddi fel Miss Eaton. Aeth allan ar hynny, ond fu hi dro bach nad oedd hi yn ei hól yn cario hambwrdd ac arno de i dri. Synnwyd ni gan groeso fel hyn ar adnabyddiaeth mor fyr.

Ar ôl chwaneg o sgwrsio â'r hen fachgan uwchben y te, roedden ni yn paratoi i ymadael gyda diolchiadau, gan feddwl erbyn hynny ei fod wedi llwyr anghofio am ein cais. Cododd yntau gyda hynny a dywedodd yn ddidaro, 'Mi ddof hefo chi i ddangos lle y cewch chi roi'r garafan'. Aeth â ni i gadlas helaeth lle yr oedd tas wellt enfawr a sgrîw seidar. Dangosodd inni yno lecyn delfrydol am rent o saith swllt a chwe cheiniog yr wythnos; pris tun bach o lemonêd erbyn hyn. Felly yn union y daethom i fyw o dan warchodaeth yr hen John Somer, Newton Grange, o felys goffadwriaeth.

Mater bach oedd cael y fan yno wedyn hefo'r tractor, ac ar ôl bod ynddi am gyfnod byr yr oeddem yn ddedwydd an annibynnol. Byddai'r hen John yn ymweld â'r gadlas yn fynych i weld a oedd popeth wrth ein bodd a daeth fy ngwraig yn ffefryn ganddo. Byddai yn cludo iddi dameidiau o gig cartref, caws a siwgr a seidar. Roedd rhain yn dderbyniol iawn gan nad oedd cyfnod y dogni amser y rhyfel eto wedi dod i ben.

Roedd yn dal i gadw dau hen was ar eu pensiwn; y brodyr Jack a George Hitchins, a oeddent wedi bod yn ei wasanaeth ers eu plentyndod bron. Yr oeddent yn byw mewn bythynnod i lawr y lôn, a chanddynt hwy y cawsom hanes y lle o dipyn i beth yn yr hen *saddle room* ar ddiwrnodiau glawog.

Roedd yr hen ddyn dros ei bedwar ugain ac wedi ymddeol ers tro byd, a'i howsgipar ers blynyddoedd oedd Miss Eaton — *the governor* chwedl hithau. Roedd yn rhentu y rhan fwyaf o'r tir i ddyn arall, ond wedi dal gafael mewn dwy fuwch i gael blaeth a menyn. Fyddai'r hen weision yn gwneud fawr ddim bellach ond nól a danfon y rheiny i'w godro ddwywaith y dydd, a byddwn innau yn gwneud yr orchwyl honno iddynt weithiau.

Roedd John Somer wedi ei eni yng Nghernyw ym 1869 ac wedi dod i Gaerwrangon i ffermio. Roedd yn aelod o'r Yeomanry unwaith, ac wedi ymladd yn rhyfel y Transvaal. Dywedwyd y byddai yn crogi cryn ddwis o lemons o frigau coed y berllan, ac yn ei sgleisio yn ddau hefo *sabre* o gyfrwy march ar garlam, ac yr oedd ganddo glust i dri pheth, medden nhw: corn hela, ergyd reiffl, a chloch yr eglwys. Allem ninnau ddim llai na choelio ar ôl cael gwahoddiad i'w gegin ffrynt, a oedd yn llawn o luniau ceffylau, marchogion, ac hefyd roedd gynnu chleddyfau yn crogi ar y mur.

Ei ffefryn o'r holl feirch, fodd bynnag, oedd y gaseg a alwai yn *Old Glory*, llun yr hon a grogai uwchben ei ddesg. Enillodd iddo'r wobwr gyntaf yn yr *Worcestershire Hunt Point to Point* ym 1895, ac yn y *Croome Steeplechase* ym 1896. Hi hefyd a'i cludodd hyd at ffroenau gynnu'r Boeriaid i achub cyfaill clwyfedig. Wedi hynny, ym 1899, cafodd ei ddyfarnu'n gledddyfwr gorau ym Myddin Gwŷr Meirch Ei Mawrthydi (Victoria). Nid ef, wrth gwrs, a ddywedodd hynny wrthym.

Yr oeddem yn gweithio yn y gerddi a'r caeau yr adeg honno. Byddai rhyw dridiau o waith o bump y bore hyd amser cinio yn ein cdw mewn bwyd am weddill yr wythnos. Byddem yn gwagsymera ar y beics ac yn treulio prynhawniau cyfan ar lan yr Hafren, gerllaw'r cae ras lle byddai amryw yn byw yn yr haf. Bob prynhawn Iau byddai'r ddwy gwch

olew, y *Regent Robin* a'r *Regent Wren* yn mynd i fyny i Stourport. Yn y gaeaf byddem yn cael gwaith o dan do yn y dref mewn swyddfeydd, neu docio'r coed afalau yn y perllannau. Wrth gwrs doedden ni ddim wedi ein beichio â thurgareddau yr oeddem yn gallu yn hawdd eu hebgor.

Byddai John Somer yn gwneud ei seidar ei hun, a byddem yn brysur hefo'r *press* yn y gadlas am ddiwrnod neu ddau. Roedd yr afalau a'r cynhron yn cael eu sgrapio yn fân a'u tywallt wedyn ar fatiau pwrpasol ar fyrdau'r *press* a'u gwasgu hefo'r sgrîwiau nes y byddai'r sudd yn arllwys i'r tybiau pren; diod digon diniwed yn ffres, ond yn farwol ar ôl sefyll am gyfnod — fel y profais.

Byddai'r hen fachgen yn dod ataf weithiau gan ddweud, '*I'm having company over the weekend young man,*' (disgrifiad nad yw'n addas bellach ers blynyddoedd!). '*Could you get me a duck or a brace of partridges?*' Byddwn wedyn yn mynd allan efo'r gwn, a byddai bob amser yn talu am y powdr. Ar un antur, rwy'n cofio, deuthum yn annisgwyl ar gwr y coed i wyneb ci lloerig oedd wedi bod yn cnoi defaid. Yn ffodus medrais ei lorio ag un ergyd.

Roedd yna un trigianydd arall hefyd yn Newtown Grange — westai parhaol fel petai — Albert, a oedd yn byw yn yr hen feudy ac yn cysgu yn y presebau o dan y matiau seidar. Byddai yn ymddangos tua chanol y bore, gan daro ei law yn y crwc dŵr o dan y fargod a'i thynnu hyd ei wyneb. Yna elai i lawr i'r dref i gardota bwyd a gweddillion yn nrysau cefn y gwetai. Ond yr oedd iddo fywyd pwysy ar wahân i hynny.

Roedd ganddo hen gôt plismon a chap pig gloyw — un uchel-swyddog yn ôl yr arddurn. Rhoddai'r wisg drwydded iddo fod yn arolygydd ar y Midland Red nes y cafodd ei wahardd am fod yn rhy gymwynasgar hefo rhyw ddynes a'i gwasgu yn rhy dynn. Ar adegau eraill fe'i gwelid yn sefyll yn awdurdodol ar gongl y Cross yn y dref yn arolygu'r drafnidiaeth, a byddai ar lan yr afon yn ddi-feth ar ddydd Iau yn yr haf yn gwneud yn siŵr nad oedd y nofwyr ar lwybr y *Robin* a'r *Wren*. Wrth iddynt fynd heibio byddai'n dal ei law ar ei gap.

Dywedodd wrthyf unwaith ei fod am gychwyn busnes taci a chael cwch ar yr afon. Byddai weithiau yn galw mewn tai i ddymuno Nadolig Llawen neu ddymuniadau da y flwyddyn newydd i'r trigolion, ac os byddai rhai o'r rheiny wedi rhoi teclyn o'u dwylo a methu ei ganfod

am gyfnod, byddai Albert dan amheuaeth — ar gam rwy'n credu. Roedd o hefyd yn chwanog o ddilyn cynhebyrgau i'r mynwentydd, ond daeth rhyw adwyth sydyn iddo ef ei hun a bu farw megis tros nos, a chollassom ei bresenoldeb diniwed. Gwelais rai o'r un tueddiadau mewn ardaloedd eraill wedi hynny. Yr oeddent yn rhoi cydbwysedd i'w cymdeithas ac yn ei gwneud yn gyflawn, ac yn gadael chwithdod o'u hól.

Byddai John Somer yn dal i fynychu Sioe y Dair Sir yn flynyddol, a gwelid ef yn y gwanwyn yn mynd, ar doriad gwawr, i mofyn cychod gwenyn yn yr hen Austin 16 mawr, a Miss Eaton yn gyrru. Ond, yn sydyn, daeth iddo awydd mynd i weld y *West Country* chwedl yntau, a bu i ffwrdd am tua wythnos. Pan ddychwelodd aeth ar ei union i'w wely a bu farw gyda hynny. Claddwyd ef yn Abaty Pershore.

Gwerthwyd y lle yn fuan wedyn ond, o drugaredd, cafodd Jack a George aros yn eu cartrefi gan y perchennog newydd. Bu'n rhaid i ni a Miss Eaton ymadael. Aethom yno wedyn, ymhen blynyddoedd, ar ein taith i'r de. Roedd yr hen dŷ heb ei ffenestri ac ar fin cael ei ddimchwel i wneud ysbyty newydd i'r dref, a oedd yn brysur chwydu allan tuag ato.

Roedd y dyn hwnnw yn ei le pan ddywedodd, 'Dydy hi ddim yn talu i fynd yn ôl'. Bendithion un genhedlaeth yw mellthion y llall. Ond aiff John Somer a'i garedigrwydd rawg o'n cof. Roedd yn ddyn na welwn ei debyg eto yn ein hoes ni.

W.J. GRIFFITH

PLYMAR A GOSODWR
GWRES CANALOG

Pant Tirlon, Llanrug
Ffôn: (01286) 673248

Gosodwr
Nwy
Cofrestredig
Corgi




Aelod o'r
Association
of Mechanical
Services
Contractors

Dim un dasg rhy fychan
Dim un dasg rhy fawr

FFENESTRI PADARN

FFENESTRI · DRYSAU
YSTAFELLOEDD HAUL

UPVC



Gadewch inni roi pris — am ddim

Ffoniwch: (01286) 871774

2 Tai Bwthyn

PENISARWAUN

Royal Victoria Hotel



LLANBERIS



Mae'r gwesty yn darparu ar gyfer Priodasau,
Partïon, Dathliadau ac Achlysuron Arbennig

Cyfleusterau Cynhadleddau a Phwyllgorau

Bwydlen Bar a Chinio Dydd Sul

Cwrw Felin Foel

Ffôn: (01286) 870253

BRYNREFAIL

Mrs Lowri Prys Roberts-Williams, Godre'r Coed. 870580

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263

Profedigaeth: Ar Fehefin 25ain, bu farw Mrs Mair Lillian Griffiths yn Ysbyty Gwynedd yn 88 mlwydd oed. Treuliodd ran helaeth o'i hoes yn Cae Newydd, Llanberis, ond cartrefodd yn ddiweddarach yn Ael-y-bryn cyn symud yn ei blynnyddoedd olaf i Blas Pengwaith, Llanberis.

Roedd yn wraig gymeradwy yn y gymuned ac yn aelod hynod ffyddlon o Gapel M.C. Brynrefail. Bu'r angladd cyhoeddus yn y Capel ar Orffennaf 1af ac yn dilyn ym mynwent Nant Peris. Gwasanaethwyd gan y Parchg D. J. Pritchard, Llanberis, a'r Parchg Gareth Edwards, Yr Wyddgrug, gyda Mr Gareth Jones wrth yr organ. Cydymdeimlir yn ddwys â'r teulu yn eu profedigaeth a chydabod yn ddiolchgar y rhoddion a dderbyniwyd er cof tuag at Eglwys M.C. Brynrefail a Phlas Pengwaith.

Llongyfarch: Estynnwn ein llongyfarchion i Catrin Gwyn, Rhandir, ar ei llwyddiant mewn Cwrs Ymarfer Cyfreithiol yng Ngholeg y Gyfraith, Caer.

Cymdeithas y Chworiydd: Cyfarfu'r Gymdeithas yn y Festri nos lau, Gorffennaf 11eg, dan lywyddiaeth Mrs Ifanwy Jones. Cymerwyd y rhannau arweiniol gan Mrs Jennie Roberts, 2 Ffrwd Madog. Croesawodd y llywydd rai ffrindiau oedd wedi ymuno â'r aelodau i wrando ar sgwrs y gŵr gwad, y Parchg Harri Parri, Caernarfon. Cafwyd cipolwg ganddo ar fywyd yn Llŷn ddechrau'r ganrif ddiwethaf yn dilyn gwaith ymchwil i hynt a helynt rhai o gymeriadau'r ardal. Diolchwyd iddo gan Mrs Verna Jones. Trefnwyd lluniaeth gan Mrs Eirlys Williams, Mrs Euronwy Roberts a Mrs Rhian Jones. Bydd y cyfarfod nesaf ar Fedi 12fed pryd y disgwyliai Mr Norman Evans, Niwbwrch, i roi sgwrs.

Priodas: Ddydd Sadwrn, Gorffennaf 27ain, yng Nghapel M.C. Brynrefail, priodwyd Einir Gwyn, merch Mr a Mrs G. Hefin Jones, Rhandir, â Mr Geraint Jones, mab Mrs Beryl Jones a'r diweddar Mr Gwyn Jones, Rhiwfelen, Eglwys-bach. Y Parchg S. O. Hughes, Bethel, oedd yn gwasanaethu, gyda Mrs Lowri P. Roberts Williams wrth yr organ. Y morynion oedd Catrin Gwyn ac Anest Gwenyth Davies a'r gwas priodas oedd Huw Ceiriog gydag Owain Gwyn ac Emyr Wynne

Williams yn dywyswyr. Cynhaliwyd y wledd briodas a'r dathliad gyda'r nos yn Neuadd Reichel, Coleg y Brifysgol, Bangor, a threuliodd y pâr priod eu melrawd yn Sbaen. Dymunwn yn dda iddynt yn eu bywyd priodasol.



Einir Gwyn a Geraint Jones a briododd yn ddiweddar yng Nghapel Brynrefail.

Llun:- Edward Parri-Jones

Diolch: Dymuna Einir a Geraint, Rhandir, Brynrefail, ddiolch i'w teulu a'u ffrindiau am y cardiau a'r anrhegion niferus a dderbyniwyd ar achlysur eu priodas. Diolch i bawb a gynorthwyodd gyda'r trefniadau ac yn arbennig i'r Parchg S. O. Hughes am y gwasanaeth cartrefol.

Eglwys M.C. Brynrefail: Disgwylir y canlynol i wasanaethu yn yr oedfaon yn ystod y Suliau nesaf gyda'r Ysgol Sul yn ailgychwyn ar Fedi'r 8fed.

MEDI
8: Parchg Alwyn Roberts, Bangor (10)
15: Mr John McBryde, Porthaethwy (10)
22: Mr Vernon Owen, Llandwrog (10)
29: Parchg Oswyn Rees, Bangor (10)

HYDREF
6: Mr J. H. Hughes, Llanberis (5.30)

Cefnogwch
ein
Hysbysebwyd

CWM Y GLO

Mrs Iris Rowlands, Glanrafon. Ffôn: (01286) 872275

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263

Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Michelle ac Alan, 1 Groeslon, ar achlysur eu priodas.

Llongyfarchiadau hefyd i blant y pentref a fu'n llwyddiannus yn eu arholiadau.

Adref o'r Ysbyty: Croeso cynnes iawn adref i Mr Llew Hughes, Hyfrydle; ac i Sian Hughes, 2 Bryn Gro, y ddau erbyn hyn wedi gwella ar treulio cyfnod yn Ysbyty Gwynedd.

GARTH MAELOG

PET CENTRE AND GROOMING SALON

Bwyd ac anghenion
Anifeiliaid anwes bychan
Pysgod dŵr oer
Offer pysgota



Molchi, cribo a chlipio
cŵn a chathod
o bob math
gan arbenigwyr

STRYD FAWR, LLANBERIS 870840

GWASANAETH TACSI HURIO BWS MINI CABS LLANRUG

Ffôn: (01286)

675951

Prisiau Cystadleuol — Gwaith Contract — Pell ac Agos

Alwyn a Sarah Jones


RACCA PENISARWAUN

★ Blodau ar gyfer pob
achlysur

hefyd

★ Dewis da o Lysiau
Fferm

★ Wyau Free Range
Ar agor saith diwrnod



870605

**LLYSIAU AR
GYFER PICLO**



ANTUR WAUNFAWR

SIOP GREFFTAU A CHAFFI ANTUR WAUNFAWR

Basgedi Blodau Sych ★ Siwtnei

Jams ★ Briwgig ★ Siampw

Clustogau ★ Ewyn Baddon

Olewon Aromatherapi

Teganau Meddal ★ Mobiles Pren

Ar agor LLUN — GWENER 9 a.m. — 4 p.m.

Ffôn: (01286) 650721

Gwesty Dolbadarn

LLANBERIS Ffôn: 870277



Am groeso cartrefol Cymreig bob amser Aneuryn Jones a'r staff.

O SIAMBAR SELWYN

Uchafbwynt prifwyl Bro Dinefwr i mi oedd gweld bardd ifanc sydd a'i wreiddiau ym mro'r Eco yn codi ar alwad y corn gwlad. Oeddwn, roeddwn i'n falch iawn o gael yr anrhydedd o'i gyrchu i'r llwyfan.

Mae 'na do ifanc o feirdd wedi cipio prif anrhydeddau'r brifwyl yn ddiweddar ac rwy'n hynod falch o hynny. Mae'r beirdd ifanc hyn am ein harwain yn obeithiol tua'r dyfodol, tra bu hen feirdd fel fi sydd ar erchwyn oed yr addewid yn mynnu taflu golwg ddagreul, hiraethus tua'r fynwent.

Gwir y gair: 'yma mae beddrodau'n tadau' — ond diolch fod beirdd ifanc fel Dafydd John Pritchard yn sylweddoli mai — 'yma mae ein plant yn byw.'

Yn ogystal â dawn mae angen tipyn o lwc i ennill y Goron Genedlaethol. Yn ystod y degawd diwetha 'ma fod 'na 313 wedi ymgiprys am y Goron, a dim ond 120 am y Gadair. Cyfartaledd o 31 yn flynyddol am y Goron a 12 am y Gadair.

Dei Tomos gododd fi'n blygeiniol un bore gan fy holi am fy nghas bethau ynglŷn â'r Eisteddfod. Wel, a bod yn onest, fel un sy wedi cael y fraint o fod mewn 48 o Eisteddfodau Cenedlaethol ac wedi mynychu pob un am wythnos gyfan, a hynny yn ddi-fwlch ers 1961, fedrwn i ddim meddwl am fawr o bethau rwy'n gasáu ynglŷn â'r Steddfod.

Wrth gwrs mae carped o fwd dan draed yn ddiflas, ond os na fuoch chi yn Eisteddfod Aber-gwaun yn 1986, peidiwch â chwyno am fwd!

Yr Eisteddfod Genedlathol gynta dwi'n cofio bod ynddi ydi Caernarfon 1935. Mae gen i gof plentyn o fod yn y pafiliwn hefo Mam yn gweld coroni Gwilym R. Jones a chadeirio Gwyndaf. Gwyndaf oedd yr ieuengaf erioed i ennill Cadair y brifwyl, ac os cofiaf yn iawn, fe ddaeth yn ail i Gwilym R. am y Goron hefyd.

Gan fod fy nhad yn aelod ffyddlon o Gôr Caernarfon (Côr

Dilys Wynne) roedd hi'n arferiad gennym fel teulu fynychu rhai o brifwyliau'r de yn ogystal. Fel arfer mynd yno ar ddiwrnod y cadeirio fyddai Mam a fi.

O safbwynt un sy wedi crwydro eisteddfodau lleol ers yn agos i hanner canrif bellach, mae gen i fwy o 'gas bethau' yn erbyn ambell steddfod a gynhelir mewn hen gapel yng nghefn gwlad.

Yn amlach na pheidio, pan gynhelir eisteddfod mewn hen gapel fydd yno ddim bwrdd o gwbl ar gyfer y beirniad, gyda'r canlyniad ei bod yn ofynnol iddo ddal ei gopïau a'i lyfr nodiadau ar ei lin, gan geisio cadw llygad ar y darn prawf, sgwennu nodiadau, a gwrando'n astud ar yr adroddwr. O, ia, dipyn o job. Joban anoddach fyth i'r beirniad cerdd.

Ond fy 'mhrif gŵyn' ynglŷn â'r eisteddfodau mewn capeli diarffordd ydi — dim toiled.

Tua pymtheg awr fydd eisteddfod undydd yn para fel arfer. Efallai y bydd 'na gafn llechi yng nghefn y festri ar gyfer galwad natur — os y gellwch ymlwybro eich ffordd tuag ato drwy'r mieri. Os byddwch yn lwcus, efa llai y bydd yno 'dŷ bach', a fu'n wyngalchog unwaith, yn llechu yng nghornel y fynwent. Cofiwch fydd 'na ddim golau ynddo a digon o waith y bydd 'na bapur yno chwaith, ac os bydd yno rolyn o 'Andrex' ar eich cyfer gellwch fentro y bydd o'n damp!

Mae steddfodau mewn capeli yn prinhaus erbyn hyn ac fe gynhelir y steddfodau lleol bellach y rhan amlaf naill ai mewn neuaddau pentref neu ysgolion. Ond mi fydda i'n dal i fynd a 'chydig o bapur at alwad natur hefo fi — rhag ofn! Wedi'r cyfan ma' pymtheg awr neu fwy o steddfod yn dipyn o farathon. Dydi'r problema yna ddim yn codi i feirniad y Genedlaethol, diolch i'r drefn, er cofiwch chi, mae 'na nifer o ragbrofion go faith yn cael eu cynnal mewn capeli hefyd.

Un gwael ydw i am gofio enwau, ac eleni, fel pob blwyddyn, fe ddaeth 'na sawl un ataf i am sgwrs glên a chroesawgar. Sgwrsio, ffarwelio — 'neis y'ch gweld chi — cofiwch fi at bawb,' a minnau'n mynd ymlaen gan holi fy hun: pwy oedd hwnna/honna, ys gwn i? gan deimlo fy hun yn anniddig o anghwrtais. Mae gen i un cysur. Mae llawer sy tua'r un oed a mi yn cael yr un broblem: 'Henaint ni ddaw ei hunan'. Ia, hen brofiad go gas ydi methu

rhoi enw ar wyneb sy'n gyfarwydd.

Rwy'n siŵr o un peth — wnaiff y Prifardd Dafydd John Pritchard byth anghofio pnawn Llun Eisteddfod Genedlaethol Bro Dinefwr. Dwi ddim yn credu y gwna inna 'chwaith, mwy na wna i anghofio'r croeso ym Mhontargothi, ar y daith dros y Mynydd Du i Frynmanan ar bnawn Sul cynta'r Eisteddfod.

Ia 'Wythnos i'w Chofio' yw wythnos y Brifwyl bob blwyddyn.



DRAENOG



Un o gyn-gynghorwyr y fro yn clywed bod yna gyngerdd yn y Castell yr haf yma. Felly, draw â fo i Gastell Dolbadarn i ddisgwyl yn amyneddgar am y cyngerdd — ond yng Nghastell Caernarfon yr oedd hwnnw! Mae pob castell yr un fath am wn i.

Ffenestri

CELTIC

Windows

2 TAN Y BRYN, BETHEL

BUSNES TEULUOL • CREFFTWYR LLEOL
FFENESTRI • DRYSAU • CONSERFATERIS

NEWYDD! DRYSAU PALADIN —
HARDDWCH COED HEB Y STRACH!

Ffoniwch am amcanbris — rhad ac am ddim



(01286) 671181
(0831) 326160



Bistro

LLANBERIS

Ffôn: 871278

PERCHNOGION: DANNY A NERYS ROBERTS

LLE DA I WLEDDA

Beth am Fwffe Enwog Nerys (rhwng 20 - 70)
i ddathlu pen-blwydd neu ben-blwydd priodas
Partion rhwng 20 a 40. Ffoniwch am fanylion
Cofiwch am nosweithiau arbennig y Bistro
Nos Wener olaf bob mis

LLANBERIS

Gwyneth ac Eifion Roberts, Becws Eryri. Ffôn: 870491

Camera yn ngofal John Pritchard, Cilfynydd. Ffôn: (01286) 872390

Undeb y Mamau: Cynhaliwyd cyfarfod yn festri Eglwys Sant Padarn bnawn dydd Mawrth, 2 Gorffennaf. Croesawyd yn gynnes iawn y Curad, y Parchg Emyr Owen, ac estynnwyd ein llongyfarchiadau calonnog iddo ar ei ordinasiwn yn y Gadeirlan ddydd Sadwrn, 29 Mehefin. Ef arweiniodd y gweddïau.

Darllenwyd a chadarnhawyd cofnodion y pwyllgor blaenorol a chafwyd sesiwn o brynu a gwerthu yn dilyn y materion busnes, gyda'r elw tuag at gronfa yr Undeb.

I ddathlu ei ordinasiwn plât i'r Curad gan Mrs Dilys Phillips — plât yr oedd hi wedi'i addurno'n hardd a chelfydd iawn gyda geiriau addas arno.

Cyn cael te, mefus a hufen blasus, fe ailwrandawyd ar y Gwasanaeth Cristingl a ddarlledwyd o Eglwys Sant Padarn yn gynharach eleni. Diolchwyd i'r Parchg Emyr Owen a'r ddwy oedd yn gyfrifol am y lluniaeth, sef Mrs Betty Humphreys a Mrs Betty Williams, gan Mrs Beryl Owen ac fe'i heiliwyd gan Mrs Audrey Evans. Enillydd y raffl oedd Mrs Betty Hughes.

Diolchiadau:

Dymuna Mrs D. Roberts, Fron Olau, a'r teulu oll ddiolch o galon am y cydymdeimlad a'r llu cardiau, galwadau ffôn a dderbyniasant wedi colli Gwilym Roberts. Diolch hefyd am y rhoddion hael tuag at Feddygfa Llanberis ac at Ymchwil y Galon. Diolch yn fawr.

Dymuna Mrs Beryl Owen, 46 Maes Padarn, ddiolch i'w theulu, ffrindiau a'i chymdogion am y llu cardiau, blodau, anrhegion, ymweliadau a'r galwadau ffôn a dderbyniodd tra yn yr ysbyty ac ar ôl dod adref. Diolch arbennig i staff Ward Aran, Ysbyty Gwynedd, am eu gofal a'u caredigrwydd; i'r parafeddygon; ac i staff Meddygfa Llanberis. Diolch hefyd i'r Parchg Philip Hughes a'r Parchg Emyr Owen am eu hymweliadau cyson tra yn yr ysbyty ac ar ôl dod adref.

Dymuna Olwen Roberts, Argoed, Stryd Warden, ddiolch o galon i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am y cardiau, blodau a'r anrhegion a dderbyniodd tra yn Ysbyty Gwynedd ac ar ôl dod adref.

Dymuna Mrs Eirlys Ellis, 12 Field Terrace, ddiolch i bawb am y cardiau

niferus, blodau, anrhegion a'r galwadau ffôn a dderbyniodd tra yn Ysbyty Gwynedd ac ar ôl dod adref.

Dymuna Mrs Ann Roberts, 22 Stryd Goodman, ddiolch yn fawr iawn i'w theulu a'i holl ffrindiau am eu caredigrwydd, am y llu cardiau, galwadau ffôn, rhoddion a blodau a dderbyniodd tra bu yn yr ysbyty ac ar ôl dychwelyd adref. Diolch hefyd i staff Ward Tudno, Ysbyty Gwynedd am eu caredigrwydd a'u gofal.

Dymuna Mr William Roberts, Hyfrydle, Ffordd Capel Coch, ddiolch o galon i'w deulu, ffrindiau a chymdogion am y cardiau, anrhegion a'r galwadau ffôn tra bu yn yr ysbyty ac ar ôl dod adref. Diolch yn arbennig i feddygon a gweinyddesau Ward Tryfan, Ysbyty Gwynedd, am eu gofal di-flino tra bu yno.

Hoffai Olwen ac Alun, 31 Stad y Glorian, Porth Amlwch, ddiolch o galon i bawb am y llu cardiau a'r anrhegion a dderbyniasant ar achlysur genedigaeth Caryl, eu merch fach, ar y 29ain o Fehefin. Diolch yn fawr iawn.

Golff: Llongyfarchiadau i Gwynfryn Griffiths, Rhos y Graig, a gafodd 'dwll-mewn-un' ar gwrs golff Llandaniel yn ddiweddar.



Plant Ysgol Dolbadarn fu'n cymryd rhan yn nathliadau'r Ras Ewropeaidd ym mis Gorffennaf.

Ymddeoliad



Dr Marren, Dr Hughes, Dr Pam Jones, Dr Williams, Dr O. V. Jones, Dr Robin Parry a Dr Oddie. Roedd Dr Alwyn Parry wedi gadael y cyfarfod cyn i'r llun gael ei dynnu . . . er mwyn profi bod un o leiaf yn gweithio y diwrnod hwnnw!

Ymddeolodd Dr O. V. Jones o'i waith yn yr ardal ddiwedd mis Mehefin. Trefnwyd cyfarfod arbennig i nodi'r achlysur yn y Feddygfa yn Llanberis, ddydd Sadwrn, Mehefin 29. Gwahoddwyd yno y rhai a fu'n cydweithio ag ef o fewn y practis dros y blynyddoedd yn ogystal â chydweithwyr o gylch ehangach yn y maes gofal iechyd. Roedd cynrychiolwyr o'r gymuned leol yn bresennol hefyd. Dr Robin Parry oedd yn llywio'r cyfarfod, a thalodd deyrnged gynnes a hwyliog i Dr O. V. Jones ar ran ei gydweithwyr o fewn y practis. Cafwyd teyrngedau pellach gan gynrychiolwyr yr Awdurdod Iechyd a'r Bwrdd Meddygon Teulu a'r Gymdeithas Feddygol. Cyfeiriwyd at gyfraniad arbennig Dr O. V. Jones fel meddyg teulu lleol a'i waith caled er sefydlu'r Feddygfa newydd yn Llanberis. Soniwyd hefyd am ei gyfraniad i amrywiol bwyllgorau ar lefel siron, cenedlaethol a Phrydeinig a'i ofal neilltuol am barhad y gofal iechyd o'r safon uchaf yn yr ardaloedd gwledig. Cyflwynwyd llun yn rhodd iddo gan ei gydweithiwr cyntaf yn Llanberis, Dr Dan Hughes. Dymunir ymddeoliad hapus i Dr Jones. Roedd ei olynydd yn Llanberis, Dr Alice Oddie, yn bresennol hefyd, ac estynnwn groeso cynnes iddi i'r ardal. Daw hi'n wreiddiol o Norfolk, ond mae bellach yn rhugl ei Chymraeg, a gobeithiwn y bydd yn hapus iawn yn ei gwaith yn y fro.

DRAENOG



Mae gen i ryw gof i mi adrodd stori debyg i hon, am yr un person, neu aelod o'r teulu o leiaf. Pryd gwnaiff rhai ddysgu deudwch? Bu'n rhaid i gymdoges ddringo drwy ffenest tŷ am fod Chiv wedi ei gloi ei hun o'r tŷ . . . eto!

Ac mae'r creadur nesaf yma wedi cael ergyd neu ddwy gan y Draenog yn ddiweddar . . . Aelod o gôr meibion lleol yn mynd i gyngerdd yn y cartref henoed yn Llanberis gan ddisgwyl yn amyneddgar ym Mron Eryri . . . tra roedd pawb arall ym Mhlas Pengwaith. Oes gwir iddo ganu 'Mi Welais Jac y Do' ar 'i ben 'i hun?



Ruth a Rhys yn arwain tîm yng ngorymdaith y Ras.

GWYNETH ROBERTS

84 Stryd Fawr, Llanberis

Ffôn: 870491

CAFFI 'BWYTY ERYRI'
TEGANAU, CARDIAU
MELYSION
ANRHEGION



Bara Ffres
Teisennau
Priodas, Bedydd
Pen-blwydd ac ati
Peis, Rholiau Sosej
Pasteiod, Teisennau Hufen
Teisennau Plât, Torth Gyrains ac ati

BECWS ERYRI

Stryd Fawr, Llanberis 870491

NANT PERIS

Elwyn Searell Jones, Dwyfor. Ffôn: (01286) 870440

Camera yn ngofal John Pritchard, Cilfynydd, Llanberis. Ffôn: 872390



Y Prifardd David John Pritchard a rhai o'i deulu a'i gyfeillion ar adeg ei groesawu yn Y Faenol.

Llongyfarchiadau i David John Pritchard, Llys Awel, ar ennill coron Eisteddfod Genedlaethol Bro Dinefwr. Y tesun oedd 'Olwynion' heb fod dros 200 llinell. Mae'r ardal gyfan yn ymfalchïo yn dy lwyddiant ac am roi enw'r Nant ar y map. Cafodd groeso mawr gan y pentrefwyr yn ddiweddar drwy gynnal parti yn Y Faenol. Darllenodd Dei Tomos ran o'r gerdd i'r pentrefwyr a ffrindiau a mwynhaodd pawb y wledd oedd yn dilyn.

Dymuna David John a'r teulu ddiolch i bawb am eu caredigrwydd yn dilyn ei lwyddiant ac am yr holl gardiau a llythyrau a dderbyniwyd. Diolch hefyd am y croeso adref arbennig ac i'r merched am drefnu'r lluniaeth. Diolch yn fawr.

Diolch i bwyllgor Carnifal Llanberis am fenthg y baneri ar gyfer croesawu David John yn ôl i'r Nant. **Carnifal Nant Peris:** Nos Wener, 26 Gorffennaf, wedi diwrnod o law, fe wenodd yr haul ar noson o hwyl a sbri. Cafwyd Carnifal lwyddiannus eto eleni. Dymuna'r pwyllgor ddiolch i'r canlynol: Y Beirniad: Parchg Emyr Owen, Eglwys St. Padarn; Rosebud Nant 1995, Lindsey; Brenhines Llanberis, Sioned; a'i gweinyddes Alaw; i'r heddlu; Mr Raymond Jones, arweinydd y gweithgareddau; Rona a'r merlod;

Valerie, siop ffrwythau; Wavel Roberts, cigydd Llanrug; H. E. Hughes, glo; ac i Seindorf Arian Deiniolen. Diolchir i holl weithwyr a chyfranwyr y stondinau; i bawb yn Tŷ Isaf; i Gwynedd am dorri'r gwair; ac i Steph a Martin am y lemonêd blasus.

Tywysoges y carnifal eleni yw Stephanie Welsby, a'r enillwyr oedd: **Gwisg ffansi:** o dan 3 oed: 1, Mared Morris; 2, Miriam Pritchard; 3, Katie Pritchard. 4-5 oed: 1, Manon Pritchard; 2, Gwion Jones; 3, Michael Hughes. 6-8 oed: 1, Daniel Lloyd; 2, Jade Roberts; 3, Rhian Morris. 9-11 oed: 1, Chantel Jones; 2, John Paul Jones; 3, Ceri Morris. Dros 11 oed: Andrew Heys; 2, Branwen Roberts; 3, Leona Lloyd. Oedolion: 1, Ann Jones. Babi bochgoch: Robat Henri Owen. Penliniau codog: Ceri Morris ac Elin Morris. Beic wedi'i addurno: William Huw Mansoor. Het addurnedig: Ceri Morris.

Enillwyr y raffl oedd Rita Morris, Bethan Evans, Eirian Mali, Nora Lloyd, Ceinwen Williams, Doreen Ward, Nicholas Welsby, Dilys Roberts, Thelma Griffiths, Gwyneth Jones, Jaco Mullane, Einir Morris.

Bu cystadlu brwd yn y mabol-gampau, a dyma'r canlyniadau: o dan 3: 1, Mared Morris; 2, Eidril

TAN Y COED

Anwen Parry, Ael y Bryn. Ffôn: (01286) 872276



Sara Salisbury Roberts.

Llongyfarchiadau i Sara Salisbury Roberts, 1 Min Parc, Tanycoed, ar ennill Dan 1af Belt Du. Mae hi wedi'i

dewis i gynrychioli Cymru yn Sheffield ym mhencampwriaeth Prydain. Mae'n ymarfer gyda Sense John Lynn (5ed Dan) yn Y Rhyl. Mae Sara yn hyfforddwraig ei hun ac yn cychwyn dosbarth yng Nghwm-y-glo. Gellir cael mwy o wybodaeth am y dosbarth drwy gysylltu â Sara ar 870022 neu drwy ffonio Ysgol Gynradd Cwm-y-glo, 870860.

Croeso: Croesawn deulu newydd i Bodnant, Rhesdai Minffordd. Gobeithio y byddwch yn hapus iawn yn ein plith.

Cydymdeimlo: Anfonwn ein cydymdeimliad i deulu'r diweddar Mr Portlock, Hen Groeslon, a fu farw yn ddiweddar. Bu colled i'r plant ar ôl ei siop.

Gwaeledd: Nid yw Miss Megan Humphreys, Cadnant, wedi bod yn dda iawn yn ddiweddar a dymunwn adferiad iechyd llwyr a buan iddi.

Llongyfarch: Llongyfarchiadau i Siwan Humphreys, Pant Bryngwyn, ar ei llwyddiant yn arholiadau lefel-A; hefyd i Gwenan ar ei llwyddiant hithau yn arholiadau'r TGAU.

Lloyd; 3, Mriam Pritchard; 4-5 oed: 1, Iwan Llŷr; 2, Elin Morris; 3, Llion Jones. 6-8 oed: 1, Daniel Lloyd; 2, Theron Lloyd; 3, Alaw Ceris. 9-11 oed: 1, Mathew Lloyd Roberts; 2, Iois Roberts; 3, Kirsty Lloyd. 11-16 oed: 1, Dafydd Pritchard; 2, Lyndsey Lloyd; 3, Leona Lloyd a Maryam Sohrab. Dros 16: 1, John Pritchard; 2, Martin; 3, Colin. Dyfalu pwysau'r


oen (22.25kg): Tony Williams (22.3); Dyfalu enw'r Tedi (Rebecca): Owain Griffiths.

Diolch i bawb am eu cefnogaeth. Gobeithiwn eich gweld chi eto y flwyddyn nesaf.

Dymuna Stephanie Welsby ddiolch i bawb am yr anrhegion a dderbyniodd ar yr achlysur o fod yn dywysoges Nant Peris 1996.



Robat Henri Owen, Nant Peris, ar fraich y tywysog Siarl pan fu ar ei ymweliad diweddar â'r Nant.



Y SGWÂR LLANRUG

Crefftwy'r gwaith llaw traddodiadol Cerrig o bob math ar gael

Ffôn: (01286) 672898 (dydd)
676285 (nos)

LLEUFER O. ac N. PRITCHARD CANOLFAN CARPEDI WAUNFAWR

Ffôn/Ffacs: 650291



Dewis eang o Welyau a 3P/Suites.

Llenni Venetian a Llenni Roler. 5,000 llathen sgwâr o garpedi mewn stoc — allwch chi fforddio prynu o batrymau?

GLANHAU CARPEDI GYDA STIMVAK

Ar agor
9-7pm
9-5pm Sadwrn
Ar Gau
Sul a Mercher

CERDYN POST

Cael amser bendigedig yma — cerdded, nofio, torheulo, siopio, ond PAM roedd rhaid iddyn NHW roi dŵr oer ar bopeth — difetha ein gwyliau drwy roi ryw ysgytwad bach i'n cydwybod braf, cysurus.

Eisteddai yng nghysgod siop, rhag yr haul tanbaid a dywynnai'n ddi-drugaredd arni hi — a phawb arall o ran hynny. Roedd ei chroen ifanc wedi crebachu a melyn yn ei wres — wyneb tlws, ond ble roedd y wên. Beth oedd gan hon achos i wenu, meddwn inna? Ers faint y bu hon yn garcharor y stryd gan fegera am ei bara menyng? Y cwestiwn oedd — beth oeddwn i am ei wneud. Mynd ati? Rhoi escudo neud ddau yn ei llaw? Na, fel y rhelyw o'm cwmpas, mynd 'o'r tu arall heibio' wnës innau.

Tra roedd gweddill y teulu'n mwynhau oeri yn y pwll nofio, euthum innau i gael diod oer i uno'r degau o'r caffis hynny hefo'u ambarél lliwgar i'ch denu o'r gwres. Wrth fwynhau fy niod a'm teisen, gan deimlo'n bur euog, edrychais yn fanylach i'w chyfeiriad gan sylwi nad un enaid yn unig oedd ganddi i'w fwydo — roedd baban bach ym mhlyg ei ffrog a'i ben yn ei chesail.

Pa hawl oedd gen i i fwynhau cysgod fy ambarél cysurus, fy niod a'm teisen — pryd cafodd hon deisen tybed? Codais, ac ês at fy nheulu. Oeddwn, roeddwn hwythau hefyd wedi'i gweld.

'Mam, ma' gin y ddynas 'na hogyn bach arall.'

'Welis i mohono fo,' atebais innau, 'Ble mae o felly?'

'Wel mae o'n sefyll yn nes i lawr y stryd ac mi nath o ofyn i mi am bres, ac mi roedd o'n edrych mor drist.'

'Paid â phoeni mi fyddwn yn siŵr o ga'l cyfle eto i roi rhywbeth iddyn nhw,' atebais innau.

'Dach chi'n siŵr, Mam?'

'Ydw, mi wnawn ni'n siŵr bod gynnon ni ddigon o bres i'w rhannu iddyn nhw y diwrnod dwythfa o'n gwylia.'

Llonnodd eu hwynebau.

Cerddasom heibio'r fam eto. Beth oedd ei hynt? Beth oedd ei henw? Mae'n siŵr bod hon wedi chwarae â'i phlant lawer gwaith gan fwynhau eu chwerthinad iach, dawnsio a chyfeillachu â'i chymdogion?

Awgrymodd y gŵr ein bod ni'n mynd allan i giniawa y noson honno. Wedi inni archebu'r bwyd clywsom accordion yn cael ei chwarae. Roedd gwraig ifanc, dlawd iawn yr olwg, yn aros wrth bob bwrdd gan chwarae'r offeryn ac yna dal ei llaw allan am gardod. Gwelodd rheolwr y bwyty hi ac fe'i taflodd hi allan o'r bwyty. Daeth rhyw ddistawrwydd rhyfedd dros y lle. Rhyw deimlad o embaras a deimlwn i. Wrth i mi fwyta'r danteithion — oedd, roedd yr hufen iâ a'r mefus yn

CAEATHRO

Clive James, Hafan, Bryn Gwna
679501 (gwaith), 677438 (cartref)



Llongyfarchiadau i dair merch o'r pentref a enillodd wobrau yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Bro Maelor eleni. Catherine Evison, Caep Hopsyn, 1af tecstilau 10-12 oed; Donna Roberts, 2il Cerdd Dant 8-10 oed; a Mair Gwenllian Roberts, Cefn Rhes Isaf, 1af tecstilau dau ddimensiwn 8-10 oed. Mae'r dair yn ddisgyblion yn Ysgol Gynradd Bontnewydd.

Croeso: Perchennog newydd a phreswlydd Llysgele, Rhesdai Bryngwna, yw Norman Hughes sy'n bostmon yn y dref. Mae Phil, Sharon, Dawn a Martin Griffiths wedi ein gadael i fyw yn Rhosbodrual.

Chwarel Dinorwig: Yn yr Amgueddfa yn Llanberis yn ystod yr haf bu arddangosfa o hen luniau'r chwarel a gasglwyd gan Gwilym Williams. Yn un ohonynt — a dynnwyd 12 Medi 1955, ym Mhen y Giaret — roedd yr enw 'Ifan (Cae Athro)'. Pwy oedd yr Ifan hwn?

Cydymdeimlo: Gyda marwolaeth Mr Roberts Williams — Bob Caeathro Bach — gadawodd un arall o gymeriadau'r pentref â'r byd hwn. Rydym oll yn cydymdeimlo'n ddwys gyda'r teulu.

Noson o Hwyl a Sbri: Diolch i gyfrannwyr hael Tynfa Fisol Cymdeithas Cae Chwarae Caeathro, cynhaliodd pwyllgor y cae chwarae noson o adloniant syml i blant y pentref, nos Lun Gŵyl y Banc. Bu gêmâu pêl-droed, rownderi, criced, cystadleuaeth curo'r gôlgeidwad, rasmus sach, ras gyfnewid, cystadleuaeth tynnu rhaff, a llawer mwy. Gyda diod ores a da-da (neu fferins) i'w sugno, roedd pawb yn hapus!

fendigedig — codais fy mhen ac yno, wrth ein bwrdd, safai merch fach bert — doedd hi ddim mwy na pedair oed — ac ar rhuban llydan o amgylch ei gwddf crogai accordion fechan. Fel ei mham, daliai hithau ei llaw fechan, chwyslyd allan gan edrych arnom â llygaid ymbilgar cyn symud i'r bwrdd nesaf. Parhaodd y distawrwydd ac edrychais o'm cwmpas. Ni welais lawer o ymateb gan mai parhau i fwyta a wnâi y rhan fwyaf, ac eithrio un — merch estron oedd hi — a rhedai deigrin i lawr ei grudd. Siarswyd ni i beidio rhoi arian iddi, er nad oedd gan reolwr y bwytya galon i'w thaflu allan, ac felly fe aeth hi allan i'r stryd ohoni'i hun.

Llwyddiant i'r Chwilotwr



Lloyngyfarchiadau i Dafydd Whiteside Thomas a fu'n fuddugol yn Eisteddfod Genedlaethol Bro Dinefwr am lunio casgliad o hanes unrhyw fro ar un thema. Mae arbenigedd a brwdfrydedd Dafydd am hanes a thraddodiadau y fro hon yn wybyddus iawn i ddarllenwyr yr Eco gan mai ef yw awdur y golofn 'Chwilotwr'. Yn y feirniadaeth nodir bod ei gyfrol yn gyfuriog o hanesion am isfyd o Dylwyth Teg a chewri, gwrachod a gwŷr hysbys, ac ati, ym mro'r Eco. Mae'r gyfrol ar fin cael ei chyhoeddi ac edrychwn ymlaen yn eiddgar i'w darllen.

Tynfa'r Pentref: Enillwyr mis Gorffennaf oedd — £40: Sharon Evans, 21 Tai Glangwna (44); £25: Ffransis a Michael Wyn Williams, Bodwyn (8); £15: Bethan a Dafydd Iwan, Carrog (1); £5: Guto Jones, Tremallt (27). Enillwyr mis Awst — £40: Aaron Evans, Llecyn Clyd (99); £25: Glyn Evans, Tyddyn Alice (30); £15: Beti Roberts, Monfa (23); £5: Bryn a Dilys Griffiths, Delfryn (31). Edrychwn ymlaen am gael mwy o gêmâu pêl-droed ar y cae yn ystod yr hydref.

Cymdeithas Gwartheg Duon Cymreig: Yn ddiweddar bu trefnydd y Gymdeithas yn ymweld â Plas Glan yr Afon, cartref y Cadfridog a Mrs Roy Davies.

Gwybodaeth am Lyfrau: Llongyfarchiadau i Cartrin Roberts, 3 Erw Wen, am gynrychioli Caeathro yn nhim Ysgol Gynradd Bontnewydd yng Nghystadleuaeth Llyfrau

Cymraeg Ysgolion Cynradd Cymru. Bu'r tîm yn llwyddiannus drwy guro timau Gartholwg (Pontypridd), Cwm Gwyddon (Abercarn), Pontardawe, Machynlleth, Rhydypennau, Pencae (Caerdydd), a Bodhyfryd (Wrecsam).

Garddwest: Cynhaliwyd garddwest er budd Cangen Bro Seiont yn Medwyn, trwy ganiatâd Francis a Michael Wyn Williams. Gwnaed elw o bron £500 tuag at yr achos.

Gwasanaethau'r Capel: Disgwylir y canlynol i wasanaethu yn ystod yr wythnosau nesaf:

MEDI

8: Parchg W. R. Williams (10)
15: Parchg Gwynfor Williams (2)
22: Parchg W. R. Williams (2)
29: Parchg Harri Parri (5.30)

HYDREF

6: Gwasanaeth Diolchgarwch (2)
Bydd croeso i bawb fynychu Capel y pentref yn ystod cyfnod pwysig yn ei hanes.

Mae'r gagendor rhwng y cyfoethog a'r tlawd yr un o hyd, ym mha wlad bynnag yr ewch chi — hyd yn oed yn yr ugeinfed ganrif. Mae trachwant mor amlwg ym mhobman. Dydy hi ddim fel hyn yng Nghymru. Tybed? Beth am y bocsus ar strydoedd ein dinasoedd a'n trefi? Dyma gartref i filoedd ar filoedd o bobl o bob oed heddiw, hyd yn oed yn y Gymru fodern.

Dyma ddiwrnod olaf ein gwyliau — awyr lās ddi-gwmwl. Di-gwmwl? Roedd yn rhaid pacio ac ail-wneud-yn-siŵr bod popeth yn ein bagiau. Ond, roedd yna un peth roeddwn i a'm gŵr am ei wneud cyn mynd adref — aethom i chwilio amdanyn nhw. Doedd dim golwg ohonynt

— na, dyna nhw — ês ati gan roi arian yn ei llaw. Gafaelodd yn dynn fel petai hi byth am fy ngollwng. Syllais i'w llygaid — roeddynt yn pefrio, ac meddai ag angerdd, 'Obrigado, obrigado'. Nid oedd yn ffortiwn o bell ffordd ond teimlaf bod y cyffyrddiad dwylo hwnnw wedi golygu llawer mwy iddi na lluchio rhyw ddarnau o arian i'r blwch wrth ei thraed, neu o leiaf dyna'r hoffwn i gredu.

Fe erys yn fy nghof am amser maith iawn yr wyneb hardd a'r ddau lygaid disglair wrth iddi afael mor dynn yn fy llaw, ac yn enwedig yr 'obrigado, obrigado' (diolch, diolch).

CYMRAS AR DAITH

DEINIOLEN

W. O. Williams, 6 Rhydfadog. Ffôn: (01286) 871259

Hwyl Helpu Drwy Ddysgu: Yn ystod misoedd Mehefin a Gorffennaf bu aelodau Ysgolion Sul Bosra, Capel y Waun, Penisarwaun, ac aelodau Ysgolion Sul Unedig Deiniolen yn codi arian i ferch fach o Kenya a noddir ganddynt.

Eleni gwnaed ymdrech arbennig drwy ofyn i deulu a ffrindiau ein noddi i ddysgu adnoddau ac emynau. Bu'r aelodau, o'r ieuengaf hyd yr hynaf, yn brysur yn dysgu a chasglwyd bron i £250. Diolchir i bawb a noddodd y dysgwyr. Rhennir yr arian rhwng y ferch fach a chymdeithas Action Aid sy'n gweithio gyda'r difreintiedig yn Kenya.

Nos Lun, 15 Gorffennaf, daeth aelodau'r ddwy Ysgol Sul ynghyd yn Neiniolen i gloi'r ymdrech, a chafwyd llawer o hwyl yn ceisio adrodd y gwaith cof, canu ac yn gwledda yng nghwmni'n gilydd.

Bydd yr Ysgol Sul Unedig yn ailgychwyn am 10.30 fore Sul, 8 Medi, yn Ebeneser. Bydd croeso cynnes i aelodau hen a newydd.

Merched y Wawr: Cynhelir cyfarfod cyntaf y tymor newydd nos Lun, 16 Medi, am 7 o'r gloch yn y Ganolfan. Buom yn ddigon ffodus i sicrhau cwmni Angharad Tomos ar y noson agoriadol. Mae yna raglen ddiddorol, amrywiol wedi ei threfnu ar gyfer tymor y gaeaf. Estynnir croeso cynnes i bawb, aelodau hen a newydd, dewch yn llw i ymuno â Mudiad Merched Cymru.

Y Gymdeithas Lenyddol: Cynhelir cyfarfod cyntaf y Gymdeithas yn y Caban, nos Lun, 23 Medi, am 7 o'r gloch. Disgwylir Mr Norman Williams, Brynrefail, i roi sgwrs inni. Trefnwyd rhaglen ddiddorol ar gyfer y tymor ac estynnir croeso cynnes i aelodau hen a newydd i ymuno â'r Gymdeithas.

Clwb Elidir: Cynhelir cyfarfod cyntaf y tymor brynhawn Mawrth, 3 Medi, am 2 o'r gloch yn y Ganolfan. Bydd croeso cynnes i aelodau hen a newydd.

Seindorf Arian Deiniolen: Llongyfarchiadau i'r Seindorf ar ennill y drydedd wobwr yn Eisteddfod Genedlaethol Bro Dinefwr.

Erbyn y daw y rhifyn nesaf o'r Eco o'r wasg bydd y Seindorf wedi cystadlu ym Mhencampwriaeth Gwledydd Prydain a gynhelir yng Nghaerdydd. Dyma'r tro cyntaf i'r gystadleuaeth gael ei chynnal yng Nghaerdydd ond hwn fydd y pedwerydd tro i'r Seindorf gystadlu yn y bencampwriaeth hon. Hei lwc i'r Seindorf yn y gystadleuaeth — fe gewch y canlyniad yn y rhifyn nesaf o'r Eco.

Enillwyr Clwb 100 Plaid Cymru: Mis Gorffennaf — £10: Mrs Eurwen Williams, 32 Hafod Oleu; £5: Mrs Olwen Bryn Hughes, 31 Stryd y Glorian, Porth Amlwch. Mis Awst — £10: Mrs Nan Owen, 48 Rhydfadog; £5: Mr Leslie Larsen, Llygad yr Haul, Penisarwaun.

Diolch: Dymuna Mrs Nellie Hughes, 4 Gwyrfa Terrace, a Mrs Jennie Roberts, 96 Pentre Helen, ddatgan eu diolch i'r teulu, ffrindiau a chymdogaion am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth sydyn a thrist o golli Gracie, eu chwaer annwyl iawn. Diolch yn fawr i bawb am y cardiau, llythyrau a'r galwadau ffôn.

THOMAS, Gracie. 24 Cae Garreg, Caernarfon. (Gynt o 13 Maes Gwylfa, Deiniolen). Dymuna Eryl, Gwynfor, Menai a Meirion ddiolch yn gynnes iawn i holl gyfeillion a chyn-gymdogaion eu mam, y ddiweddar Mrs Gracie Thomas, am eu caredigrwydd a'u cydymdeimlad yn ystod eu profedigaeth drist iawn. Diolch yn arbennig i Mrs Nellie Hughes a Mrs Jennie Roberts, ei chwiorydd, am eu cefnogaeth cyson.

Cefnywaun: Cyflwynwyd cloc llechen yn rhodd i Mr Eifion Williams yn ystod yr oedfa nos Sul, Gorffennaf 21, ar achlysur dathlu deng mlynedd ar hugain o wasanaeth ganddo fel blaenor yn eglwys Cefnywaun. Llongyfarchiadau iddo a dymuniadau gorau oddi wrth holl aelodau'r eglwys.

SEINDORF ARIAN DEINIOLEN

NOSON GOFFI

NOS WENER, 6 MEDI 1996
yn YSGOL GWAUN GYNFI

am 6.30 o'r gloch

Tocynnau ar gael gan aelodau'r
Seindorf neu aelodau'r pwyllgor

Oedolion: 30c Plant: 15c

Pa un o'r rhain sydd
bwysicaf?

YSWIRIO EICH TŶ (i arbed
colled i chi);

YSWIRIO EICH CAR (i arbed
colled i chi); neu

YSWIRIO EICH BYWYD (i
arbed colled i'ch teulu)

Cysylltwch â'r isod i weld mor
rhad yw cost yswiriant gyda CDH

Andre (Bethel/Llanberis)

Bryn (Môn)

Euryr (Caernarfon a'r cylch)

John Eifion (Penisarwaun)

CDH

Ymgynghorwyr Ariannol
Annibynnol Lleol (sefydlwyd 1974)

Ffôn: (01248) 355055

Am Wasanaeth Fframio Lluniau Tystysgrifau Tapestri

am brisiau rhesymol

ELWYN

PRITCHARD

Parc Padarn, Llanberis

Ar agor Llun — Sadwrn

10.00 — 4.30

Ffôn: (01286)

870922



Bryn Terfel gyda Dafydd Williams a Band Deiniolen ddiwrnod Ras yr Wyddfa yn Llanberis.

LUXEMBOURG a'r Diwydiant Llechi

Nid yw cael eu holi gan ymchwil-wraig o Luxembourg yn brofiad bob dydd i staff Amgueddfa Lechi Cymru, ond dyna ddigwyddodd yn ddiweddar.

Mae Doris Thilmany, o Luxembourg yn treulio pum wythnos yn yr Amgueddfa yn dysgu cymaint ag y bo modd am ddiwydiant llechi ardal Llanberis a sut mae sefydlu Amgueddfa yn hen weithdai Chwarel Dinorwig wedi troi yr hyn a fu'n brif ddiwydiant yr ardal yn atyniad treftadaeth pwysig i ymwelwyr o Gymru a phob rhan o'r byd.

Yn ei hardal hi yn Luxembourg, Haunt Martelange ar y ffin â gwlad Belg, mae Doris yn ymwneud â chymdeithas o'r enw Cyfeillion y Garreg Las sy'n gobeithio sefydlu Amgueddfa debyg ar safle hen gloddfa yno.

'Dechreuais ymddiddori yn niwydiant llechi Luxembourg tra'n cwblhau fy nhrydedd flwyddyn o hyfforddiant athrawon,' eglurodd. 'Roedd yn rhaid imi dderwis pwnc ar gyfer traethawd ymchwil a dewisais y berthynas rhwng plant a chelf mewn llechfaen. Cefais fwynhad mawr o'r pwnc ac i ddarganfod mwy fe gysylltais â Chyfeillion y Garreg Las, cymdeithas a sefydlwyd i ddiogelu buddiannau'r diwydiant llechi yn Luxembourg.'

Grŵp o unigolion sy'n treulio llawer o'u hamser hamdden yn darganfod mwy am y diwydiant ac yn ei gadw i'r cenedlaethau a ddaw yw'r gymdeithas a daethant i wybod am ddiwydiant llechi Cymru pan ddarganfuasant luniau archif o Chwarel yr Oakley ym Mlaenau Ffestiniog a Chwarel y Penrhyn ym Methesda.

'Y llynedd ymwelais â gogledd cymru gydag aelodau o Gyfeillion y Garreg Las a chawsom ein syfrdanu gan Amgueddfa Lechi Cymru. Profiad amheuthun oedd gweld lliwiau prydferth y llechfaen a'r modd yr oedd naws yr hen weithdai wedi ei gadw'n berffaith; mae'n adlewyrchu i'r dim yr hyn a fu.'

Bydd Doris, a gafodd grant gan y Cyngor Prydeinig yng Ngwlad Belg i'w galluogi i deithio i Brydain, yn awr yn treulio pythefnos arall yn yr Amgueddfa ac wythnos yn gweld atyniadau eraill yng ngogledd Cymru sy'n seiliedig ar y diwydiant llechi cyn mynd adref i rannu'r wybodaeth â'i chyd aelodau o Gyfeillion y Garreg Las.

Fel yr esboniodd: 'Ar ôl cyrraedd



Doris Thilmany o Luxembourg yn ceisio hollti llechen yn yr Amgueddfa Lechi. Yn ei helpu mae'r technegwr Dafydd Davies.

adref bydd yn rhaid imi weithio'n galed iawn i esbonio i'r cyngor lleol ac i'r llywodraeth sut mae'r diwydiant llechi wedi cael eu diogelu yma yng Nghymru ac fel y dylem ninnau wneud yr un peth yn ein gweithfeydd ni. Po fwyaf o wybodaeth fydd gen i, mwyaf o obaith fydd gennyf o'u argyhoeddi mor bwysig yw diogelu ein treftadaeth fel yr ydych chi wedi'i wneud.'

Bu Dafydd Roberts, Ceidwad Amgueddfa Lechi Cymru, yn hynod o falch o helpu Doris gyda'i hymchwili: 'Mae llechi Cymru wedi bod, ac yn parhau felly, yn ddiwydiant o bwys yn Ewrop. Mae'n briodol iawn bod Doris, sydd â diddordeb mawr yn y diwydiant yn ei gwlad ei hun, wedi dod i Lanberis i ddysgu sut mae Amgueddfa Lechi Cymru, fel rhan o Amgueddfeydd ac Oriolau Cenedlaethol Cymru yn cyflwyno hanes byw ar waith.'

DRAENOG



Glywsoch chi am y gŵr ifanc fu'n chwysu wrth ymLAFNio torri gwair yn ystod yr haf. Bu wrthi am gryn awr ond heb weld fawr o ôl ei lafur. Doedd y gwair ddim modfedd llai. O'r diwedd sylweddolodd Keith nad oedd llafn yn y peiriant torri. Rhyw fater bach o 'Spot the Blade' fu hi wedyn.

Gair gan Delyth . . . Gwylliau yn Nepal

Parhad o'r rhifyn diwethaf

Ebrill 9 (Mawrth):

Chitiwang

Codi'n fore eto heddiw er mwyn mynd i'r Parc Cenedlaethol gan ei bod yn awr o siwrna yn y car. Taith wedyn dros yr afon a dyna ni yng nghanol y jwngl gwyllt.

Ymuno â chriw o saith a dau dywysydd, ac i ffwrdd â ni drwy'r jwngl. Cael arweiniad gan y tywysydd sut i ymateb petaem yn gweld rheino, arth neu deigr — sefyll yn llonydd os gwelem arth; dringo coeden os gwelem rheino; a gweddio pe baem yn cyfarfod â theigr! Roedd hyn wedi codi ofn arnaf ond wnes i ddim meddwl y byddem yn gweld yr un o'r anifeiliaid gwyllt hyn — ond sioc gefais i! Yn sydyn dyma gwyfle i weld rheino . . . ond . . . o na! . . . dyma'r creadur yn troi a dechrau rhedeg tuag atom. Pawb yn rhedeg i bob cyfeiriad . . . ond Delyth yn penderfynu dringo'r goeden agosaf! Wedi cael pawb yn ôl at ei gilydd fe ddwedodd y tywysydd na welodd erioed neb yn dringo coeden mor sydyn! Roedd fy nghoesau a'm breichiau yn griwiau drostynt a phawb yn y grŵp yn chwerthin gan i'r rheino benderfynu peidio ymosod wedi'r cwbl. Wrdd y tisio cadwr yn rheino draw roedd y tywysydd yn taro'r ddaear yn galed hefo dau ddarn o bren trwchus, ond fe falodd un o'r ffyn gan mor galed y'i defnyddiwyd gan y tywysydd. A deud y gwir, dwi'n reit falch ohonof fy hun gan mai fi oedd yr unig un a wnaeth yr hyn oedd yn ofynnol petai'r rheino wedi penderfynu ymosod!

Ar ôl cinio, cael gweld eliffantod yn cael bath, gweld crocodeils yn yr afon, ac yna trip trwy'r jwngl ar gefn eliffant. Teimlo'n ddiogel rwan ar gefn yr anifail anferth a gweld tri rheino yn agos iawn; teulu o geirw gwahanol; mochyn gwyllt; paen gwyllt; ieir gwyllt; ond dim eirth na theigrod, diolch fyth!

Diwrnod bythgofiadwy.

Ebrill 10 (Mercher):

Chitiwang/Kathmandu

Penderfynu peidio mynd lawr i'r jwngl bore heddiw, felly cael bore hamddenol braf am y tro cyntaf yn ystod y gwylliau yma. Brecwast am naw, yn hytrach na'r 6.30 arferol! Defnyddio gweddill y bore i sgwennu yn y dyddiadur 'ma, ac i gael darllen ychydig o'm llyfr.

Heb deimlo'n ben-ysgafn ddoe na heddiw, felly dwi'n sicr mai'r uchder yng nghanol y mynyddoedd oedd yn gyfrifol. Stumog Kerry a minnau yn dal i well, a Jon yn dal yn iach fel y gneuen!

Erbyn amser cinio roedd yn hen bryd inni gychwyn ar ein taith yn ôl i Kathmandu, sef siwrnai o bedair awr a hanner, ond rhaid oedd cael cinio i ddechrau. Cinio blasus yr olwg, ond, beth oedd y peth bach pinc yng nghanol fy mwyd? Ia, c'nonyn! Llwyddo i beido bod yn sâl (unwaith eto) ac i ffwrdd â ni am Kathmandu.

Siwrnai a hanner a gawsom ni hefyd, gan fod llawer o ddamweiniau ar y ffordd, ond diolch i'r drefn fod ein gyrrwr ni yn un gofalus iawn, a chyrhaeddodd Kathmandu yn ddiogel erbyn gyda'r nos.

Ebrill 11 (Iau):

Kathmandu

Jon yn darganfod ei fod wedi colli ei docyn awyren ac felly wedi mynd i chwilio am swyddfa Thai Airlines er mwyn cael tocyn newydd.

Kerry a fi yn mynd i siopa efo Wangchuk gan gyrraedd yn ôl i'r gwesty erbyn pedwar o'r gloch — wedi gwario pob ceiniog er nad oedd gennym bron iawn wahân i'w ddangos am hynny, ar wahân i fwy o gardiau post a manion betheuach.

Pobl y gwesty yn dweud wrthym eu bod wedi dod o hyd i docyn awyren Jon ac wedi'i gadw'n ddiogel. Jon yn cyrraedd y gwesty awr yn ddiweddarach ac wedi cael tocyn newydd. Torri'r newyddion iddo fod ei docyn arall wedi bod yn y gwesty drwy'r adeg! Doedd o ddim yn hapus gan iddo dreulio diwrnod cyfan yn chwilio am swyddfeydd Thai Airlines a Royal Brunei Airlines er mwyn cael tocyn newydd — Jon druan.

Pacio heno gan ein bod yn cychwyn am Bangkok pnawn 'fory.

Ebrill 12 (Gwener):

Kathmandu/Bangkok

Yn y maes awyr erbyn dau a Wangchuk, Kami a'i wraig wedi dod efo ni i ffarwelio. Cael sgarff lwc da yr un ganddynt (sgarff Buddists) ac yna ffarwelio ac addo y byddwn yn sgwennu ac yn anfon ambel lun o'r gwylliau iddynt.

Cyrraedd Bangkok erbyn gyda'r nos, cael pryd o fwyd, ac yna paratoi ein bagiau ar gyfer rhan olaf y daith, sef hedfan yn ôl i Brunei bore 'fory.



Wangchuk, ein tywysydd a'i frawd Kami a'i wraig yn ffarwelio â ni ym Maes Awyr Kathmandu.

Ebrill 13 (Sadwrn):

Bangkok/Brunei

Y taci yn cyrraedd y gwesty erbyn naw, ond doedd dim golwg o Jon! Panics rwan ond roedd yn rhaid i ni gario 'mlaen efo'r trefniadau gwreiddiol neu fe fyddem yn colli'r ffeit. Dim hanes o Jon, a ninnau'n holi'r stiwardes os oedd yna ffeit arall i Brunei. O, na, dim ffeit arall tan nos Sul ac roedd yr ysgol yn ail-ddechrau ddydd Llun! Cyrraedd Brunei yn ddiogel ond yn meddwl beth a allai fod wedi digwydd i Jon druan!

* * * *

Wel, dyna i chi hanes ein gwylliau yn Nepal, ond beth ddigwyddodd i Jon, medda chi?

Fe gyrhaeddodd Brunei nos Sul a chael ar ddeall ei fod wedi mynd i brynu anrhegion i'w ffrindiau a'i

deulu gan feddwl fod ganddo ddigon o amser, ond, yn anffodus i Jon, fe anghofiodd droi ei oriawr yn ôl i amser Bangkok ac felly roedd o awr ar ôl! Ar ben hyn i gyd rhaid oedd iddo fynd i brynu tocyn arall — unwaith eto — gan iddo golli'r ffeit.

Bu'r tri ohonom wedyn yn sâl wedi inni ddod yn ôl. Yn ôl y meddyg roeddem wedi bod yn dra effeithiol i ddal *Giardia* (??sillafu??) oddi wrth y dŵr yn Nepal.

Erbyn hyn rydym yn holliach, ond y neges i'r rhai sy'n meddwl mentro allan i Nepal ydi — *peidiwch da chi ag yfed y dŵr yno* — hyd yn oed y poteli dŵr sy'n cael eu gwerthu ym mhobman. Poteli Coke a Fanta yn unig fyddai fy awgrym i!

Cofion,

DELYTH xx

CLWB ERYRI

Trefnwyd y trip blynyddol ar 22 Mehefin eleni gan Stanley Owen. Mwynhawyd yr ymweliad ag Abaty Glyn y Groes a llecynnau eraill diddorol yn nhref Llangollen ei hun, a chafwyd arlwy teilwng i goroni'r dydd yng Ngwesty'r Gwydyr, Betws-y-coed. Yn ystod y dydd amlinellwyd rhaglen tymor 1996-7 gyda'r cyfarfod cyntaf i'w gynnal ar 4 Hydref am 7 o'r glong yng Ngwesty'r Fictoria, Llanberis, yn ôl yr arfer, a'r Llywydd newydd yn annerch.

Etholwyd yr isod i'w swyddi am y tymor newydd — Llywydd:


J. Norman Davies; Is-lywydd: Cledwyn Pritchard Jones; Trysorydd: Ieuan Ellis Jones; Is-drysorydd: Eurwyn Jones; Ysgrifennydd: Iolo Huws-Roberts; Is-ysgrifennydd a Chofnodydd: John Hugh Hughes; Bardd y Clwb: R. Gwynn Davies; Trefnydd y Wibdaith (ar 21 Mehefin 1997): Ralph Jones.

Penderfynwyd yn unfrydol ddyrchafu John Roberts Williams yn aelod er anrhydedd oherwydd ansawdd ei gyfraniad i'r Clwb a'r Gymru gyfoes.

IOLO HUWS-ROBERTS

GWYN JONES
FFENESTRI ERYRI
GARTH ISAF, LLANRUG
(01286) 650764

★ Ffenestri ★ Drysau ★ Drysau Patio
★ Porches ★ Byrddau Ffasia



★ Cladio
★ Conserfateris

12 MLYNEDD
O BROFIAD YN Y MAES

SNOWDONIA PARC

WAUNFAWR Ffôn: 650218

★ Tŷ Rhydd ★ Bwyd Cartref ★
★ Prydau Plant ★ Ystafell Deulu ★
★ Cinio Dydd Sul Traddodiadol ★
★ Cerddoriaeth Fyw ★ Cwrw Go lawn ★

NES ADREF (Adolyglad)

Gwthiais fy mhen allan o'r car wrth iddo arafu. 'Ydi o wedi cyrraedd John?' oedd fy nghwestiwn i John Ellis Williams, Allt Riwth, Llanrug. 'Dwi ar gychwyn am Sbaen ben bora fory, ac mi faswn i'n licio ei gael o.'

'Newydd ei dderbyn o, Arwel, dydi'r inc ddim wedi sychu eto. Siôn, pasia gopi iddo fo.'

Allan o fag Kwiks y daeth *Nes Adref* fel newydd-anedig gyda'i glawr diddorol yn sgleinio fel sofran. Parhai'r car i symud yn araf, ond roedd nofel newydd John Ellis Williams yn fy meddiant, ac edrychwn ymlaen yn eiddgar i ddrachtio o'r cynnwys. Gobeithiwn cael gwneud hynny mewn hedd ar un o draethau Andalucia, neu ar lethr unig yng nghanol y Sierra Nevada.

Yn wir, gwirededwyd fy ngobeithion, oblegid yno y cês y cyfle i ddarllen seithfed nofel John Williams, a thrwy ryw gyd-ddigwyddiad rhyfedd, yn rhai o'r mannau y bu'r awdur yn teithio drwyddynt ei hun, ar ôl yr Ail Ryfel Byd, pan fu'n cyd-fyw â sipsiwn Andalucia mewn ogofau ar gyrion dinas hardd Granada.

Buan iawn yr anghofiais am boethder a sychder yr ardal gyda'i thirwedd lychlyd, a chael fy hun yn llythrennol 'nes adra' yn Llanddeiniolen, Arfon, yng nghanol beddfeini'r fynwent enwog, ac yng nghysgod yr hen gaer yn rhannu profiadau yr hen Tom Robaits.

Hanes hen awyrennwr sydd yn ryw fudr baratoi ei hun at ddiweddydd bywyd a geir yn y nofel. Yn lle crwydro'n hamddenol hyd hen lwybrau'r fro, neu gilio i gornel yn ei slipars, caiff ei hun ynghanol pob mathau o amgylchiadau annisgwyl ac amheus, a hynny mewn cyfnod a oedd i bob pwrpas yn ddieithr iddo. Pwy fuasai'n meddwl y buasai'r hen Tom yn magu perthynas eitha clôs â hipi fechan, ac y byddai yn cael ei lusgo gerfydd ei drwyn i ymgyrch llosgi tai haf Meibion Glyndŵr.

Yr hyn a elwir 'primary novel' yw'r gyfrol. Meddai John: 'Yn ôl a wn i, does neb wedi delio â'r rhai a gaethiwyd ar gam oherwydd gweithgareddau'r bobol hynny, fel mâl mewn nofel — yn Gymraeg beth bynnag — nac wedi sôn am gath fawr, wyllt yn rhydd mewn unrhyw ardal chwaith.'

Ond pam y cymrodd Tom Roberts gymaint o ddiddordeb yn hynt a helynt y foneddiges ddirgel o



Quebec? Beth mewn difri oedd ei gysylltiad â theulu o Peuplinques, Pas-de-Calais? Fel pe na bai hyn yn ddigon, roedd si ar led fod cath wyllt yn troedio llwybrau unig y fro ac yn mynychu'r fynwent dan lenni'r nos.

Medda John Williams gryfderau gwir nofelydd. Mae'n storiwr heb ei ail a phrofodd hynny eisoes yn *Straeon Cyfar Main*. Gall lunio deialog llyfn a chynnil, er enghraifft: 'Sut hwyl, Tom Robaits?' meddai (Richie Malan) dan wenu.

'Dal i fynd, Richie, ar fy 'rims'.' 'Mae gwedd di-fai arnoch chi.' 'O bell. Ond mae'r arwyddion i gyd yna rŵan.'

'Be' ydach chi'n feddwl?' 'Dechra colli bwyd am ben fy ffrynt ac anghofio cau fy malog.'

'Mi fydd yn ddigon buan i chi fynd i ddechra pryderu pan fyddwch chi'n anghofio ei agor o.'

A dyna lond bol o chwerthin yn atsain o ganol y twyni tywod ar draethell Almenimar, a'r Sbaennwr yn methu deall pam. Ond welodd yr

un Sbaennwr ambell ddeigryn yn croni yng nghornel fy llygaidd 'chwaith.

Cryfder digamsyniol John Williams yw ei gyfoeth geirfaol a llithrigrwydd ei fynegiant di-ffrils. Nid geiriau ffansi a geir ganddo ond geirfa chwaethus a chyfoethog. Diddorol fyddai rhestru rhai o'r geiriau 'anghyfarwydd' sydd yn y nofel hon ac yna eu dadansoddi. Maent yn eiriau sydd ar fin mynd i ebargofiant yn anffodus, ond sydd er hynny yn rhan naturiol o iaith-bobdydd yr awdur. Hir y pery i roi pin ar bapur.

Rhaid canmol Gwasg Carreg Gwalch am ddiwyg glân a thaclus, clawr deniadol a phernasol, a rhwymo cadarn. Nid lle delfrydol yw glân môr gwyntog i ddarllen llyfr bregus ei rwymiad!

NES ADREF gan John E. Williams.
Cyhoeddwyd: Gwasg Carreg Gwalch. Pris: £5.95.

A.J.

CYNGOR CYMDEITHAS LLANDDEINIOLEN

Mae Cyngor Cymdeithas Llanddeiniolen wedi estyn gwahoddiad i swyddog o'r heddlu ddod i'w cyfarfod nesaf i drafod nifer o faterion sy'n achosi pryder iddynt o fewn y plwyf.

Roedd gan y Cyngor ddiddordeb yng nghynllun Gwasanaeth Ailgylchu Antur Waunfawr a bydd rheolwr y Gwasanaeth yn ymweld â'r Cyngor yn y dyfodol i drafod y mater ymhellach.

Etholwyd y canlynol i wasanaethu ar gyrff llywodraethol ysgolion cynradd y plwyf am gyfnod o dair blynedd — Bethel: Idris Morris; Penisarwaun: Miss Phyllis Ellis; Gwaun Gynfi: Glyn Thomas; Rhiwlas: Elwyn Jones.

Eglurodd y clerc iddo gael addewid gan Gyngor Gwynedd y bydd llwybr Ffynnon Cegin Arthur, Penisarwaun, yn cael ei glirio yn y dyfodol agos.

Mae'r clerc wedi anfon cylchlythyr i bob Swyddfa Bost yn y plwyf yn hysbysu'r Cynllun Rhyddhad Trethi arfaethedig.

Hysbyswyd fod y Cyngor wedi derbyn nifer helaeth o alwadau ffôn a llythyrau oddi wrth unigolion, ac oddi wrth gymdeithasau, yn cefnogi eu gwrthwynebiad i wyro llwybr Cae Goronwy, Fach-wen.

Mae'r Cyngor yn dal yn bryderus ynglŷn â chyflwr yr hen siop Liptons yn Neiniolen, ac hefyd ynglŷn â'r domen sbwriel sy'n nghefn y Post. Addawodd y Cynghorydd Len Jones ddwyn y mater i sylw'r awdurdodau.

Disgwylir i fudiadau gwirfoddol, sy'n awyddus i'r Cyngor ystyried eu ceisiadau am roddion, anfon eu ceisiadau i'r clerc: Selwyn Griffith, Crud-yr-awen, Penisarwaun, erbyn 1 HYDREF. Ni ellir ystyried unrhyw gais ar ôl y dyddiad hwn, a rhaid fydd anfon mantolen ariannol llawn a chywir gyda phob cais.

DRAENOG



Mae 'na glamp o faes parcio ym Maes Awyr Manceinion, ac mae un gŵr o Lanberis bellach yn gwybod am bob modfedd ohono.

Wedi ffarwelio â'i chwaer dyma fo a'i fam yn dychwelyd i'r maes parcio i droi am adref. Ond, o! am chwilio. Doedd ganddo ddim syniad lle roedd o wedi gadael ei gar, ond fe wyddai nad oedd ar waelod y maes parcio enfawr.

'Tria lefal 3,' meddai'i fam. 'O, na, dwi'n hollol siŵr i fod o'n nes i'r top.'

Dechreuodd chwilio ar lefel 17 ... lefel 16 ... lefel 15 ... lefel 14 ... dim golwg o'r car. Bellach roedd yn amau tybed oedd o yn y 'terminal' iawn.

Doedd dim amdani ond derbyn cyngor doeth ei fam, ac i lawr â nhw i lefel 3. Wrth agor y drws i'r lefel honno ... roedd yn 'amazed' o weld y Mazda!

Os byth y caiff y Vic yn Llanbêr faes parcio aml-lawr go brin y gofynnir i'r gŵr hwn ofalu amdano!

GERAINT OWEN

Gosodwr carpedi
a phob math
o lorïau

**Cil-y-Mynydd
WAUNFAWR**
Ffôn: (01286)
650552

SPAR

Y STORFA LLANRUG

(Richard a Meirwen
Williams)

Ffôn: (01286) 672790

Ar agor bob dydd
o'r wythnos at eich
gwasanaeth

Nid oes unrhyw dâl am
ddanfôn archeb i'ch cartref
yn ardal Llanrug



ORIEL PLAS GWYN

Pontrug, Caernarfon

Gwasanaeth Fframio Lluniau
o bob math ar gael ar y safle
Prisiau Rhesymol

Arddangosfa o luniau
gwreiddiol gan Artistiaid Lleol
Ar Ffordd A4086
Caernarfon — Llanberis
Ffôn/Ffacs: (01286) 672619
Richard S. Humphreys

WAUNFAWR

Mrs Nan Roberts, Pantafon. Ffôn: (01286) 650570

Camera yn ngofal Heulwen Hughes, Argoed. Ffôn: (01286) 650556

Llongyfarchiadau i bawb a wnaeth mor dda yn yr arholiadau TGAU, Lefel-uwch a choleg. Dymuniadau gorau ichi yn y dyfodol ac i bob un sy'n cychwyn gyrfa mewn swydd coleg ac ysgol ym mis Medi.

Genedigaethau: Llongyfarchiadau i Mrs Helen Jones, Tref Eilian, ar ddod yn nain i Iona, merch fach i'w mherch Einir a'i phriod Tony, a chwaer fach i Tomos.

Ganwyd mab, Stephen Luc, i Wendy a Dafydd Thomas, Cae Gorlan, brawd bach i Cain ac ŵyr bach i Treflyn ac Ann Thomas, Treforfan. Llongyfarchiadau i chwi fel teulu a chroeso'n ôl i Dafydd a'i deulu i'r Waun wedi cyfnod yn byw yn Nhal-y-sarn.

Llongyfarchiadau i Bethan ac Iolo, 10 Bryn Golau, ar enedigaeth eu merch fach, Erin Haf, ac i Arnold a Christine Roberts ar ddod yn daid a nain am y tro cyntaf; ac i Mr a Mrs R. W. Roberts, 9 Bryn Golau, a Mr Dafydd Morris, 2 Bryn Golau, ar enedigaeth eu wyres fach. Dymuna Bethan ac Iolo ddiolch i'w teulu a'u ffrindiau am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniwyd ar enedigaeth eu merch fach.

Llongyfarchiadau i Mandy a Keith Williams, 5 Ael-y-bryn, ar enedigaeth eu merch fach Catrin, chwaer fach i Wena Lyn ac Owain; wyres fach i Mr a Mrs R. Williams, Bro Waun.

Dathlu Pen-blwydd: Llongyfarchiadau i Heddus Gwynedd, Nant, ac Andrew Davies, Hafan, ar gyrraedd eu deunaw oed. Dymuniadau gorau ichi eich dau i'r dyfodol.

Llwyddiant Cerddorol: Llongyfarchiadau i Heledd Elfryn, Coed Gwydryn, ar ei llwyddiant yn arholiad theori cerdd Gradd 4; Manon Evans, Arfryn, yn arholiad theori Gradd 3; Ceridwen de Lacy Vallecalle, Cae Gwyn, ar lwyddo yn yr arholiad piano Gradd 1; ac i Karen Jones, Tan-y-waun, ar lwyddo yn arholiad piano, Gradd 6.

Dathlu Pen-blwydd Priodas: Llongyfarchiadau i Dave ac Elaine Parry, Bro Waun, ar dathlu eu priodas rhuddem; ac i Mr a Mrs Ray Johnstone, Tŷ Gwyn, hwythau hefyd yn dathlu cyrraedd deugain mlynedd o fywyd priodasol. Dathlu cyrraedd eu priodas arian y bu Duncan a Gill Brown, Gwelfor. Dymuniadau gorau ichi i'r dyfodol.

Llwyddiant Addysgol: Dymuna rhieni Bethan Roberts, 10 Bryn Golau, ei llongyfarch ar ei llwyddiant yn ei chwrs NNEB Diploma gyda theilyngdod.

Cydymdeimlo: Anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf i Mrs Betty Hughes, 3 Tref Eilian, yn ei phrofedigaeth o golli ei phriod ac â Myra a David yn eu profedigaeth o golli llys-dad.

Cydymdeimlwn ag Elwyn a Gwynfor Parry a'u teuluoedd yn eu profedigaeth o golli eu mham, Mrs J. Parry, Clydfan.

Cydymdeimlwn ag Alwyn Williams, Garreg Fawr, yn ei brofedigaeth o golli ei fam.

Cydymdeimlir â Mrs Elena Jones, Bryn Meurig, yn ei phrofedigaeth o golli ei chwaer.

Adref o'r Ysbyty: Yn ystod yr haf bu'n rhaid i amryw o'r pentref dreulio cyfnod mewn ysbytai. Croesawn chwi i gyd adref gan obeithio y byddwch yn well ac yn esmwythach wedi derbyn meddyginiaeth: Mrs G. Jones, Bod Arthur; Mrs M. Hughes, Bryn Peris; Eira Wyn Roberts, Llwyn Celyn; Mrs G. Jones, Tref Eilian; Mrs N. Thomas, Tan-y-foel; Ella Wyn, Graianfryn; Mrs S. Jones-Evans, Pennant, Stad Bod Hyfryd; Mr Glyn Owen, Glan Gors; Mr R. W. Roberts, 9 Bryn Golau; Mr J. Elwyn Roberts, Bro Waun; Mr Dylan Owen, Glennydd; a Mr Eric Jones, Tref Eilian.

Braf oedd gweld Fflur Llywelen yn gwella ac yn cael dod adref ar ymweliadau cyson.

Da deall fod Catrin Keller, Stad Croes-y-waun, wedi gwella ar ôl cael damwain gyda'i char.

Teithio i'r America: Yn ystod yr haf bu Gwenan Jones, Glyn Ceris ac Elain Owen, Glyn Awel, ar ymweliad ac yn chwarae gêmâu pêl-droed yn yr America. Mae'r ddwy yn aelodau o Dîm Pêl-droed Merched Gogledd Cymru.

Almanac: Clywsom amryw o ganeuon gan y grŵp Almanac ar y radio yn ystod gwyliau'r haf a dymunwn longyfarchiadau mawr ichi hogia'r Waun.

Diolch: Dymuna Eira Wyn Roberts, Llwyn Celyn, ddiolch am y caredigrwydd a dderbyniodd gan ei theulu a'i ffrindiau tra bu yn yr ysbyty ac ar ôl dod adref.



Taith gerdded Plaid Cymru.

Plaid Cymru — Cangen Waunfawr a Chaeathro: Nos Sadwrn, 15 Mehefin, cynhaliwyd taith gerdded ddigrl i'r teulu ar hyd llwybrau'r pentref gan ddilyn cliwiau a arweiniodd yn y diwedd at wledd o fwyd da. Cafwyd digon o hwyl ac ambell dro trwstan cyn cyrraedd pen y daith ac hyfryd o beth oedd cael oedi yn rhai o lecynnau difyr ein bro.

Diolch am y croeso a'r wledd a gafwyd ym Mhlas Bod Hyfryd, a chyfle i sgwrsio gan roi'r byd yn ei le yn nhawelwch yr ardd, a'r haul yn suddo'n isel wrth i'r plant chwarae. Tristwch mawr inni yw sylweddoli mai am y tro olaf yng nghwmni teulu Joy ac Eifion y buom y noson honno ar yr aelwyd hon. Mae'n dyled yn fawr iddynt am eu cefnogaeth a'u croeso dros y blynyddoedd a dymunwn yn dda iddynt yn eu cartref newydd yng Nghaerdydd.

Cymdeithas Addysg y Gweithwyr (WEA): Cynhelir dosbarth o'r Gymdeithas o dan ofal Mr R. Maldwyn Thomas, sef pum cyfarfod o 1 Hydref, yn yr Ysgol Gynradd, am 7 o'r gloch — 'Edrych ar Straeon a Ffilmiau'. Cysylltwch â Gill Brown am ragor o fanylion.

Clwb Pêl-droed Waunfawr: Diolch yn fawr i bawb am nodd i'r plant ar eu taith gerdded. Roedd hi'n noson braf i gerdded a chymdeithasu gan godi arian i'r clwb yr un pryd.

Bydd y tymor newydd yn dechrau'r mis hwn a'r timau yn cael chwarae yng nghynghrair Gwyrfa. Mae croeso i unrhyw blentyn, 5 oed neu'n hŷn, ymuno â'r clwb a mynychu'r sesiynau hyfforddiant. Am fwy o wybodaeth cysyllter â Jeff Daniel (650485), neu Jina (650578).

Cynhelir pwyllgor y Clwb Pêl-droed nos Fawrth, 3 Medi, yn y Ganolfan am 8.30 o'r gloch. Croeso i aelodau newydd ar y pwyllgor i rannu'r gwaith a'r hwyl.

Digemer Vad! Hwyrach ichwi sylwi ar y geiriau hyn ar y posteri pedair-

iaith sydd o gwmpas y dre? Efallai eich bod wedi ymweld â Llydaw ar eich gwyliau ac wedi rhyfeddu at enwau lleoedd cyfarwydd, megis Llandeilo, Lanion, Aber-, Pont-, Tre-, neu Plou (plwyf).

Hoffech chwi wybod mwy am ein chwaer-genedl a'i hiaith?

Cynhelir cyfres o gyfarfodydd undydd, 'Llydaw a'r Llydaweg', yn y Ganolfan, Waunfawr, yn ystod yr hydref. Llydaw'r ifanc, rhugl yn y Gymraeg, sydd yn arwain y cwrs a chynigir gwersi iaith, sgwrs ar Lydaw, pryd o fwyd, a llawer o hwyl am bris rhesymol iawn. Y dyddiadau yw: 21 Medi, 5 Hydref, 23 Tachwedd.

Am fwy o fanylion, neu i gofrestru, cysyllter â Jina Gwyrfa (01286) 650578.

Enillwyr y Clwb 300: Mis Gorffennaf — £40: Mrs B. Wesphaal, 6 Tref Eilian; £25: Mr E. W. Hughes, 15 Tref Eilian; £10: Mr A. Brown, Glanaber. Mis Awst — £40: Mr W. M. Catt, Awel-y-môr; £25: Mrs Alice Johnstone, Tŷ Gwyn; £10: Mrs Wendy Jones, 2 Penclip.

Gwella: Mae'n dda deall fod Mrs Eluned Coles, Bro Waun yn gwella ar ôl derbyn llawdriniaeth yn Ysbyty Gwynedd, ac hefyd Mrs W. Evans, Lleifor, wedi iddi ddisgyn yn ei chartref a thorri ei choes.

Llongyfarchiadau i'r rhai o'r pentref a fu'n cystadlu, ac yn llwyddiannus, yn yr Eisteddfod Genedlaethol fel unigolion ac fel aelodau o gorau a thimau.

Diolch: Dymuna Mrs B. Hughes, 3 Tref Eilian ddiolch am yr holl garedigrwydd a chydymdeimlad a dderbyniodd yn ei phrofedigaeth o golli ei phriod. Diolch am y cardiau a'r cyfraniadau ariannol a gyflwynwyd i feddygfa Waunfawr er cof am Mr Hughes.

Diolch i'r meddygon, gweinydd-esau a'r gweithwyr gofal cartref am eu gofal tyner dros Mr Hughes tra bu'n wael.

Aled Jones

Peiriannydd
Gwres Canolog
a Phlymio

Y GORLAN
FFRWD CAE DDU
BONTNEWYDD
(01286) 830412

Emyr Jones

PLYMAR
A PHEIRIANNYDD
GWRESOGI

Cynnal boileri nwy,
olew, tanwydd solat
a thredio peipiau

44 Glanffynnon
LLANRUG
(01286) 673513



Gwynedd Hotel

& Restaurant

Llanberis 870203

Ar agor trwy'r flwyddyn ar gyfer priodasau, dathliadau bedydd, penblwydd a phob achlysur arbennig arall. Gallwn drefnu adloniant — disgo a.y.y.b. Bwydlen Bar a Restaurant Cinio Dydd Sul

Cerrig Beddau

Glanhau y Garreg
ac
Ailbeintio
Llythrennau

Ffoniwch am bris
(01286) 830041

BETHEL

Geraint Elis, Cilgeran. Ffôn: (01248) 670726

Camera yn ngofal Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl. Ffôn: (01248) 670115

Llongyfarchiadau:

— Bethan Williams a Caryl Owen ar ddod yn gyntaf yn y gystadleuaeth deialog, o dan 19 oed, yn Eisteddfod Genedlaethol Bro Dinefwr;
— Eirlys ac Arfon Jones ar eu priodas. Dymuniadau gorau i'r ddau yn eu cartref newydd yn Ceidio;
— Gethin Jones, Wenallt, ar ddathlu ei ben-blwydd yn 18 oed ar Awst 11;
— Gwenan Elis ar ei dathliad hithau ar Awst 19;
— Côr Llefaru Bethel, a hyfforddir gan Iorwerth Williams, Tan-y-buarth, ar ddod yn drydydd yn y gystadleuaeth llefaru i bartion dan 16 mewn nifer yn Eisteddfod Genedlaethol Bro Dinefwr;
— Dafydd Guto Ifan ar ennill ohono gadair Eisteddfod Talsarnau yn ddiweddar.

Cydymdeimlo: Yn ystod y mis, wedi cyfnod yn yr ysbyty, bu farw Mrs Griffiths, 3 Y Ddôl. Estynnir pob cydymdeimlad i'r teulu yn eu profedigaeth.

Plaid Cymru: Cafwyd Helfa Drysor hwyliog nos Wener, 5 Gorffennaf, a buom yn lwcus fod y glaw wedi cadw draw hyd nes i bawb gyrraedd y targed olaf — Y Gors Bach. Tîm llwyddiannus eleni oedd Dafydd Emrys gyda thipyn bach o help gan ei fam a'i dad. Edrychwn ymlaen at Helfa'r flwyddyn nesa rŵan. Diolch i bawb am gefnogi'r noson ac yn arbennig i Llinos a Dafydd Williams am drefnu'r Helfa ac i bawb a gyfrannodd roddion at y noson.

Merched y Wawr: Bydd y tymor newydd yn dechrau nos Fercher, 11 Medi am 7.30 o'r gloch gyda chyngerdd yng Nghapel y Cysegr yng nghwmni Hogia'r Ddwylan. Bydd y noson yn agored i bawb a'r mynediad i oedolion yn £2; pensïnwyr £1 a phlant 50c, i'w dalu wrth y drws. Dewch yn llw.

Swyddogion y tymor newydd yw — Llywydd: Deilwen Hughes, Bryn Ogwen; Trysorydd: Elizabeth E. Evans, Blaen Parc; Ysgrifennydd: Eirlys Sharpe, Ael y Bryn.

Ffermwyr leuainc: Ar Fedi 24ain, am saith o'r gloch, bydd Ffermwyr leuainc Caernarfon yn aildechrau gyda Helfa Drysor fydd yn cychwyn o Neuadd Goffa Bethel. Byddwn yn cyfarfod bob nos Fawrth am wyth o'r gloch yn y Neuadd ac mae croeso i bawb i ymuno â ni.

Cafwyd Rali lwyddiannus eto eleni gyda Chlwb Caernarfon yn dod yn ail, gan ddod adref gyda pum tarian. Aeth rhai o'r aelodau ymlaen i gystadlu yn Sioe Frenhinol Cymru yn Llanellwedd — y genod yn cystadlu yng nghystadleuaeth y tynnu rhaff a rhai o'r bechgyn yn barnu gwartheg.

Mae rhaglen amrywiol a diddorol wedi'i threfnu ar gyfer y gaeaf, felly dowch yn llw i fwynhau eich hunain. Am fwy o fanylion cysylltwch â Bethan Jones ar (01248) 670312.

Eisteddfod Bentref Bethel: Cynhelir yr Eisteddfod eleni ar ddydd Sadwrn, 2 Tachwedd, yn y Neuadd Goffa am 1 a 6 o'r gloch. Bydd pob plentyn Ysgol Gynradd yn derbyn copi o'r testunau ac fe geir copïau ychwanegol yn Siop Treflyn a'r Swyddfa Bost.

Eleni mae yna dair cystadleuaeth agored i oedolion y pentref:

1. Sgets.
2. Darllen darn penodol o *Cit Cat a Gwin Riwbob*, gan Harri Parri. Ceir y darn gan yr Ysgrifennyddes.
3. Gan nad oedd lle yn y testunau fe gynhwysir yma y darnau llinell goll, a osodwyd gan Dafydd Williams, Yr Hafod:

*Bydd yn dda pan ddaw'r Datganoli,
Yn ôl rhyw hen wrth o Lanllyfni*

*Fe gan n'ôl y sôn
O Fynwy i Fôn*

*Roedd 'ma dipyn o le yn nhŷ Siani
Pan enillodd ei gŵr ar y Lotri,
Cans gwraiddod y pres
Ar ribidirê*

Disgwylir i blant oedran Ysgolion Uwchradd a'r oedolion anfon eu gwaith llên (dan ffug-enw) i'r Ysgrifennyddes yn 4 Tan-y-cae (670601) erbyn 25 Hydref.

Celf: Rhaid dod a'r gwaith celf i'r Neuadd erbyn dydd Gwener, 1 Tachwedd, rhwng 4 a 6 o'r gloch. Bydd y Neuadd ar agor rhwng 7.30 ac 8.30 o'r gloch y noson honno os dymunwch gael gweld arddangosfa o'r gwaith celf, a'r pris mynediad fydd 20c.

Cystadlaethau Symudol (dawnsio gwerin a disgo): Cynhelir y cystadlaethau nos Wener, 18 Hydref, am 6.30 o'r gloch yn y Neuadd. Rhowch eich henwau i ysgrifenyddes y



Bethan Williams a Caryl Owen a ddaeth y gyntaf yn y gystadleuaeth deialog i rai o dan 19 oed yn Eisteddfod Genedlaethol Bro Dinefwr.

dawnsio, Caryl Owen, ar 670754, erbyn dydd Llun, 14 Hydref.

Bydd pwyllgor yr Eisteddfod yn cyfarfod yn y Neuadd, nos Fercher, 4 Medi, am 7.30 o'r gloch.

Clwb 200 Neuadd Goffa Bethel: Enillwyr mis Mehefin oedd — £20: Nia W. Griffiths, Glan Dŵr (179); £10: Joan Ginsberg, 2 Celtic House (156); £5 yr un: Sulwen Thomas, 1 Stad Eryri (99); Walker Griffiths, Ivy Cottage (189); Cary Jones, Arenig (20); Olwen Jones (11); E. Watkin, Ty'n Lôn (131); Gwilym Jones, Cynfal Bost (93); Angharad Price, 5 Tan-y-ffordd (170); Jean Williams, Pen Lôn (2). Enillwyr mis Gorffennaf — £20: Elizabeth Jones, Tyddyn Oer (92); £10: Sulwen Thomas, 1 Stad Eryri (99); £5 yr un: Evan Owen, Wern Las (103); Annie Humphreys, Ty'n Rhos (149); Iolo Davies, Cilan, Tan-y-cae (23); Mair Jones, 15 Stad Eryri (33); Dennis Harrison, Bakhita (181); Hefin Jones, 7 Stad Eryri (113); Gwyneth Price, Llys Gwynt (94); Sheila Lambrecht, 9 Y Rhos (121). Diolch i bawb am eu cefnogaeth.

Newydd o'r Ysgol Gynradd: Enillwyr Clwb 100 yr Ysgol am fis Gorffennaf — £20: Wendy Grail, 19 Y Ddôl (101); £15: Sheil Foulkes, Tyddyn Gwndwn (19); £10: Gwyndaf Pierce Roberts, Bron Iwrch, Y Groeslon (83); £7: Owen Pierce Hughes, Fachell Bach (5); £5: Arwel Wyn Jones, Hafan, Y Rhos (69). Enillwyr mis Awst — £20: Pat Jones, 15 Tan-y-buarth (40); £15 Wendy Roberts, Gwelmon, Y Felinheli (28); £10: Nina Jones, 1 Dockwood, Y Felinheli (100); £7: Ieuan a Menai Jones, 4 Tan-y-buarth (39); £5: Janet George, Bodhyfryd, Rhos-bodrual (86). Diolch i bawb am eu cefnogaeth.

Yn ystod wythnos ola'r tymor cafwyd cyfarfod i ffarwelio â thair aelod o staff yr ysgol. Anrhegwyd

Mrs Lola Smart a Mrs Mary Elliott, dwy a fu'n cynorthwyo gyda phlant ag anghenion arbennig. Anrhegwyd hefyd Mrs Bethan Davies wedi iddi gwblhau saith mlynedd yn aelod gwerthfawr o staff yr ysgol. Dymunodd y prifathro, ar ran gweddill y staff, yn dda i Mrs Davies yn ei chartref newydd yn Aberystwyth.

Llwyddiant Addysgol: Rydym yn falch iawn o glywed am llwyddiant pobl ifanc y pentref yn eu gwahanol arholiadau yn ystod yr haf. Dymunir y gorau i bawb i'r dyfodol mewn coleg a gwaith. Dymunir yn dda hefyd i'r plant fydd yn symud i'r ysgol uwchradd ar ôl eu cyfnod yn ysgol Bethel.

Diolchiadau:

Dymuna Eysyllt M. Jones ddiolch i bawb am y caredigrwydd a ddangoswyd iddi ar achlysur ei graddio yn ddiweddar.

Dymuna Gethin Jones, Wenallt, ddiolch o galon am y cardiau, anrhegion a'r dymuniadau da a dderbyniodd ar achlysur dathlu ei ben-blwydd yn 18 oed.

Dymuna Phylis Owen a theulu'r diweddar Hywel Owen, Cremlyn, ddiolch i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad yn eu profedigaeth ddiweddar.

Dymuna Gwenan Elis, Cilgeran, ddiolch i deulu a ffrindiau am yr anrhegion, cardiau a'r dymuniadau da a dderbyniodd ar achlysur dathlu ei phen-blwydd yn 18 oed.

Dymuna Mr a Mrs Geraint Elis, Cilgeran, ddiolch i bawb am eu llongyfarchiadau a'u dymuniadau da ar achlysur dathlu eu priodas arian ar Awst 14.

Dymuna Sioned Owen, Cefn Cynrig, ddiolch yn fawr iawn am yr holl gyfarchion a dderbyniodd ar achlysur ei graddio eleni. Diolch yn fawr iawn i bawb.

GORSAF BETROL

Esso BERAN

DEINIOLEN

Ffôn: (01286) 871521

Ar agor 7 a.m. — 9 p.m. bob diwrnod
Petrol • Disel • Nwy Calor • Glo
Cylchgronau • Papurau Newydd
Cardiau Penblwydd • Wyau
Nwyddau Groser • Melysion

TICEDI LOTERI AR WERTH YMA!

PENISARWAUN

Mrs Ann Evans, Sycharth. Ffôn: (01286) 872407

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263

Yr Ysgol Gymuned: Croeso cynnes i'r newydd ddyfodiaid a phob bendith i'r rhai sy'n cychwyn yn Ysgol Uwchradd Brynrefail.

Trip yr Ysgolion Sul: Dymunir diolch i Mrs Elizabeth Jones a Mrs Ann Paterson am drefnu trip gwerth chweil i aelodau'r Ysgolion Sul. Fe blesiodd pawb gyda'r dewis o siopa yng Nghaer neu ymweld â'r Sŵ ac yna orig ddifur yn y Rhyl.

Sioeau Amaethyddol: Llongyferchir holl anifeiliaid, adar a'u perchnogion ar eu llwyddiannau ysgubol yn yr amrywiol sioeau. Daw gwobrau lu i'r pentref hwn yn flynyddol a bu eleni eto yn ardderchog.

Yr Eisteddfod Genedlaethol: Llongyfarchiadau brwd i aelodau o Gôr Caernarfon ar eu camp, o dan arweinyddiaeth Menai Williams, ac i Judith a Nia ar eu llwyddiant hwythau gyda Pharti Dawnsio Caernarfon.

Ysgol Sul Bosra: Wedi'r dysgu nodedig tuag at addysgu merch fach o Kenya — Katilan Sangino — casglwyd swm anrhydeddus o dros £250, ar y cyd ag aelodau Ebeneser, Deiniolen. Trefnwyd noson hwyliog yn festri Ebeneser, Deiniolen, a llongyferchir y plant a'r oedolion am eu hymdrech glodwiw i ddysgu rhannau o'r Beibl. Diolchir i Miss Jean Parc Jones ac aelodau Ebeneser am eu croeso a gobeithir cael noson gyffelyb eto yn fuan.

Bydd yr Ysgol Sul yn aildechrau fore Sul, Medi 8fed. Croeso cynnes i aelodau newydd.

Llwyddiant Addysgol: Dymunir llongyfarch holl bobl ifanc y pentref ar eu campweithiau yn yr amrywiol arholiadau. Pob bendith i chwi oll i'r dyfodol.

Gwellhad: Anfonir cofion annwyl at bawb sy'n teimlo'n sâl a gobeithio fod Elinor Jones, Heatherbank, yn gwella wedi'i thriniaeth yn yr ysbyty.

Gŵyl Gerdd Dant Caernarfon: Bu'r ymateb i'r cais am gyfraniadau i'r Wyl yn syfrdanol a chyrraeddwyd bron at y nod gyda dros £200 eisoes mewn llaw. Diolchir i chwi am fod mor barod i gyfrannu a chefnogi'r Wyl arbennig hon a ddethlir yng Nghaernarfon ar Dachwedd 9fed.

Pwyllgor y Neuadd: Trefnir Taith Gerdded Nodedig — 'Cerdded y Llwybrau' — dan ofal Leslie Larsen, fore Sadwrn, 14 Medi, i gychwyn o

fuarth yr Ysgol Gymuned am 10 o'r gloch y bore. Dowch i ymuno â ni i gadw'r llwybrau ar agor. Croeso cynnes i bawb.

Plygu'r Eco: Gofelir am blygu rhifyn mis Hydref o'r Eco gan Benisarwaun a hynny ar nos lau, 26 Medi, yn Neuadd Eglwys Santes Helen, o 5.30 o'r gloch ymlaen. Chwi ddarllenwyr ffyddlon yr Eco erfynnir am eich cymorth i blygu ein papur bro. Fel arfer byddwn wedi gorffen y gwaith oddeutu 7.30 o'r gloch. Diolch am eich cydweithrediad.

DINORWIG

Glyn Tomos, Pen y Bwlch. Ffôn: (01286) 870576

Cymdeithas Addysg y Gweithwyr (WEA): Bydd y dosbarth nos, dan nawdd y Gymdeithas, yn dechrau yn y Ganolfan nos lau, 19 Medi am 7 o'r gloch. Cyfes o bum darlith a geir eleni gyda'r arthuro, Mr Ifor Baines, B.A., yn ein cymell i ddarllen, trafod a chyfansoddi cerddi. Cafwyd cryn bleser a hwyl yn gwneud hynny yn nosbarth y llynedd. Estynnir croeso cynnes i aelodau newydd sy'n awyddus i ymuno â'r dosbarth.

Pwyllgor y Ganolfan: Cynhelir pwyllgor yn y Ganolfan nos Lun, 9 Medi, am 7.30 o'r gloch. Hwn fydd

cyfarfod cyntaf y pwyllgor newydd ers y Cyfarfod Blyneddol a gynhaliwyd ym mis Mai. Mae'n bwysig fod y swyddogion yn cael cefnogaeth lawn y pwyllgor yn ystod y tymor.

Llongyfarchiadau i Mr a Mrs Evan Bryn Roberts, Tŷ'r Ysgol, ar ddod yn nain a thaid unwaith eto. Ganwyd merch, Caryl, i Olwen sy'n byw erbyn hyn yn Amlwch. Llongyfarchiadau mawr i Olwen a'i gŵr Alun a'r teulu oll.

Cyngerdd Gŵyl Mihangel Sant a'r Holl Angylion: Cynhelir y cyngerdd yn Eglwys Crist Llandinorwig, nos Sul, 29 Medi. Arweinir y noson gan Glyn Tomos a bydd yr artistiaid yn cynnwys Côr Meibion Dinas Bangor; Sian Griffith, Fron, Deiniolen; Michelle Roberts, Llanrug; John Eifion Jones, Penisarwaun; a phedwarawd Seindorf Arian Deiniolen. Mae'n argoeli am noson dda eto gyda thalentau'r fro. Bydd yr arian a gesglir yn mynd tuag at gostau cynnal a chadw yr eglwys. Mae croeso i unrhyw un ddod i'r cyngerdd hwn.

Pob dymuniad da i'n pobl ifanc sydd wedi gadael yr ysgol eleni, naill ai i ddilyn cwrs addysg uwch neu yn dechrau gweithio.

Cofio Aelodau'r Côr: Yn rhifyn mis Mehefin o'r Eco anfonodd Mrs Ceridwen Williams, Hafan Elan, Llanrug (gynt o Tŷ Capel, Dinorwig), lun o barti cydadrodd dan 12 oed a lwyddodd i ennill y drydedd wobwr yn Eisteddfod yr Urdd, Rhydaman, 1957. O dan y llun gofynwyd am enwau aelodau'r côr hwnnw. Wel, yr aelodau oedd — Nansi Williams, Ann a Hefina Roberts, Marian Wyn Williams, Helen Jones a Christine Griffiths — y cwbl o Ddinorwig. Wrth ddiolch i Mrs Ceridwen Williams am anfon y llun a'n hatgoffa o lwyddiant y côr hwnnw, dymunwn yn dda i Mrs Gwen Lloyd Roberts, hyfforddwraig y côr, sydd ddim yn mwynhau iechyd rhy dda y dyddiau hyn.

YN ÔL I'R ARDD gyda Gwraig y Tŷ

*Croeso Medi mis fy serch
Mis y porffor ar y ffriddoedd...*

Dyna ddechrau un o delynegion Eifion Wyn ac am lechweddau'r grug y sonia, ond gallai hefyd ddweud yr un peth am yr ardd a'i blodau. Dyma'r mis y cawn eistedd yn ôl a mwynhau ffrwyth ein llafur.

Mae'n rhaid i mi gyfaddef mai y garddio ffasiwn newydd ydw i'n wneud — a garddio digon diog hefyd — sef garddio mewn potiau, a gorau oll os ydyn nhw'n botiau pridd. Mae'r potiau o flaen y tŷ ac mae'n rhaid imi ddweud eu bod nhw'n odidog — mynawyd y bugail (*geranium*) pinc, coch a gwyn. Cefais yr un binc yn Sioe Sir Fôn flynyddoedd lawer yn ôl bellach ac rwyf wedi rhoi dwsinau o doriadau ohoni i ffrindiau. 'Irene' ydi ei henw, os cofiaf yn iawn, enw digon aristocrataidd.

'Wn i ddim o ble y daeth yr un wen — tamaid gan ryw ffrind caredig mae'n siŵr — a'r goch yr un fath. Mae yna *alysum* gwyn o bobtu ac o'u cwmplas. Peidiwch meddwl fy mod yn mynd yn 'Brydeinig' iawn efo'r 'red, white & blue'. Wrth sôn am flodau glas, ydach chi wedi sylwi fod y gwenyn yn hoff iawn o'r lliw hwn.

Mi fydd 'na lawer yn gofyn imi beth ydi'r enw Cymraeg ar rai o'r blodau, ond rhaid cofio nad enwau Saesneg sydd arnyn nhw chwaith. Er enghraifft, dyna ichi'r blodyn hardd, lliwgar y *dahlia*, mae hwn wedi'i enwi ar ôl botanydd o'r enw *Dahl*, ac felly onid yw'n iawn inni ei Gymreigio a'u galw yn 'Delia'. Mae 'na un math o'r enw 'Esgob Llandaf' sy'n liw coch hyfryd ac mae'n dda

fod yr esgobaeth honno yn cael y parch gan y garddwyr!

Dydw i ddim yn fodlon ar dyfu blodau mewn potiau yn unig. Mae hi'n bosib tyfu persli mewn pot ar ffenest y gegin. Dyma ichi un o'r pethau mwyaf defnyddiol i ni'r gwagedd wrth baratoi salad neu gawl. A dyna ichi'r 'cennin syfi'. Be ydi hwnnw, meddech chi — *chives* — ac mewn pot mae hwnnw hefyd. Dydi o ddim mor gryf ei flas â'r nionyn mewn salad. Does 'na ddim mor flasus na brechdanau wy a chives wedi'i falu'n fân.

A dyma ddod at y *crysanthemum* a rhai'n dweud mai 'ffarwél haf' ydyn nhw yn Gymraeg, ac eraill yn dweud mai 'blodau Mihangel'. Ond fel *Michaelmas daisies* yr arferwn i sôn am 'ffarwél haf' bob amser. 'Crys Martha' fyddai'r hen arddwyr yn eu galw a hynny am na allent ynganu'r gair cywir! Fodd bynnag, bydd yn rhaid rhoi y rheiny yn y tŷ gwydr cyn i'r barrug a'r rhew ddiwedd hydref, a dyna ichi wledd o liw ynghanol Tachwedd tywyll.

Mae gen i ddau blanhigyn tomato sy'n gyndyn iawn o gochi er inni gael cryn dipyn o haul eleni.

Un gwendid mawr ynglŷn â thyfu mewn potiau 'ma a hynny ydi gorfod dyfrio, fel cario'r dŵr golchi llestri allan, dipyn o strach.

Trist iawn inni'r garddwyr oedd colli Clay Jones a fu farw'n ddiweddar ac fe fydd colled am ei gynghorion ar radio a theledu. Cychwynnwyd sgysiau garddio ar y radio yn ystod cyfnod y rhyfel, pan oedd Sam Jones yn bennaeth y BBC ym Mangor, a Tom Jones a roddai'r

sgysiau'r pryd hynny.

Dydw i ddim yn fodlon ar edrych ar y rhaglen ar nos Wener heb edrych ar *Gardeners World* ar BBC2 ar ei ôl. Colled fawr arall fu colli Geoff Hamilton. Gobeithio y deil y BBC i roi inni raglenni garddio yn Gymraeg a Saesneg.

**Wavell
Roberts**

CIGYDD

**London House
LLANRUG**

Ffôn: (01286) 673574

PEN CIGYDD Y FRO

Yr ŵyn lleol mwyaf blasus
Selsig cartref

Cigoedd parod i'w bwyta
Archebion ar gyfer y rhewgist
MYNWCH Y GORAU
DEWCH ATOM NI!

AM DEITHIAU CYFFORDDUS, DIOGEL
A RHAD YM MHYDAIN A THRAMOR ...



**BYSIAU ARFON
LLANRUG**

(Eric Morris)

Ffôn: (01286) 675175 a 677858

**OSMOND SHAW
DEINIOLLEN**

**GWERTHU
- TRWSIO**

★ Teledu ★ Fideo
★ Offer Trydan

Gwasanaeth Ffôn 24awr
(01286) 870545

NEWYDDION BETHEL (parhad)

Llwyddiant Cerddorol: Llongyfarchiadau i'r ieuenctid canlynol am lwyddo mewn amrywiol arholiadau cerddorol yn ddiweddar: Gwen Rowlands, 21 Y Ddôl (gradd 1, piano, gyda theilyngdod); Ffion Williams, 20 Y Ddôl (gradd 1, piano, gyda rhagoriaeth); Iolo Ellis, Drws y Coed, Rhos-lan (gradd 3, piano); Dewi Griffiths, Llwyn Eithin (gradd 8 cornet, gyda theilyngdod); Ifan Rowlands, 23 Y Ddôl (gradd 2, theori); Geraint Owen, Cefn Ffrwd (gradd 3 theori).

Yr Urdd: I bawb sydd â diddordeb yng ngweithgareddau'r gangen leol, cynhelir y Cyfarfod Blynnyddol ddiwedd mis Medi yn y Neuadd Goffa. Mae'r gangen yn agored i blant o Blwyddyn 2 ymlaen, felly mae croeso i rieni plant yr oedran hwnnw ddod i'r cyfarfod. Ceir manylion pellach am y dyddiadau ym mhapurau'r Herald ac yn y siopau lleol.

Carnifal Bethel: Cynhaliwyd Carnifal lwyddiannus ar ddydd Sadwrn, 20 Gorffennaf, ar ddiwrnod heulog, braf. Y beirniaid oedd Mr a Mrs Tony Davies, Llangefni, a mawr yw ein diolch iddynt am eu gwaith caled ac anodd.

Enillwyr y gwisgoedd ffansi — Dan 5: 1, Stephanie Lomas; 2, Rachel a Sharon; 3, Siân Evans. Dan 8: 1, Hefin Roberts; 2, Ffion Medi Roberts; 3, Elliw Sharpe. Dan 11: 1, Huw Evans; 2, Sophie ac Adele Jones; 3, Ellen Foulkes. Dan 15: 1, Gary Williams a David Peters; 2, Kelly Williams; cydradd 3: Bethan Williams a Sarah Morgan. Dros 15: 1, Bethan Williams; 2, Llinos Mair; 3, Rhys Jones. Dros 25: 1, Sheila Foulkes.

Roedd y ddwy fflôt addurnedig a drefnwyd gan Sioned a Susan a'r Ysgol Feithrin yn gydradd gyntaf.

Beic wedi'i addurno: 1, Iwan Morris; 2, Marged Rhys; 3, Iona Speke.

Pram wedi'i haddurno: 1, James Bell.

Enillwyr y raffl oedd: 1, Nan Owen, Berwyn, Bethel; 2, Isabel Evans, Bangor; 3, Rhian Jones, Bontnewydd; 4, Menna Dauncey Williams, Bethel; 5, Ann Lewis, Bethel; 6, Meirwen Jones, Swyddfa'r Post, Bethel; 7, Sam Davies, Bethel; 8 a 9, Buddug Hughes, Llanberis; 10, Myfanwy Harper, Bangor; 11, Elfyn Owen, Bethel.

Enillwyr yr Helfa Drysor oedd Edwina Morris ac Ann Lewis, gyda'r wobwr gysur yn mynd i Oliver Newton.

Enillydd y gystadleuaeth pêl-rwyd oedd Sera Louise Williams.

Buddugwyr yn adran pêl-droed oedd — dan 11: Tim Derfel Williams; dan 14: Tim Marc Williams (a wnaiff y tim yma gysylltu â'r Ysgrifenyddes i gael eu medalau); oedolion: Tim Dylan Thomas.

Dymuna'r pwyllgor ddiolch i'r rhai a gyfrannodd at y raffl ac i bawb fu'n helpu i wneud yr wythnos yn un mor lwyddiannus.

**Cefnogwch
ein
Hysbysebwy**

CEUNANT

Trystan a Sioned Larsen
Bodafon. Ffôn: (01286) 650799

Llongyfarchiadau i bawb ar ganlyniadau eu arholiadau TGAU yn ddiweddar.

Gwellhad: Anfonwn ein cofion at Mrs Jones, Tŷ Capel, Ceunant, sydd newydd ddod adre ar ôl cyfnod yn Ysbyty Gwynedd. Brysiwch wella.

BLE MAE CYMRU? (parhad o'r dudalen gefn)

a wna prisiau'r seddau. Nid syndod erbyn hyn yw gweld y nifer cynyddol o bwysigion a welwn yn y maes cenedlaethol ar ddydd gêm rygbi tra fo'r werin bobl yng Nghlwb Ifor Bach, neu fannau cyffelyb, yn gwyllo ar y sgrîn deledu. Ble mae Cymru?

Yn oes y cytundebau trist yw meddwl fod y Vetch a'r Cae Ras yn diflannu o galendrau y meysydd rhyng-wladol. Beth tybed yw'r 'grass-roots' yma mae'r Welsh FA a'r Welsh Rugby Union yn ymfrostio eu bod yn buddsoddi ynddo. Onid braf fyddai meddwl y byddai'r arian yn cael ei ryddhau fel bod Ffordd Farrar ym Mangor, neu'r Ofal yng Nghaernarfon, yn cael eu haddasu yn stadiwm gyda seddau fyddai'n dal oddeutu 5,000 o gefnogwyr. Os mai gêm y werin yw rygbi neu bêl-droed yna rhaid eu bod ymysg neu

Parhad o'r rhifyn diwethaf o atgofion OWEN JONES, Llanllyfni, am ei dad, Robert David Jones

Pan oedd dros oed ymddeol ac yn dal i weithio yn y chwarel fe glywodd fod bandfeistr Deiniolen, gŵr o'r enw Thorpe' am ymadael o'r chwarel ac a'i 'segur swydd' gyda'r saer maen, a mynd yn ôl i Loegr. Aeth fy nhad i lawr i'r brif swyddfa yn Llanberis gan ofyn i'r goruchwyliwr a oedd yna siawns iddo gael joban Thorpe. 'Wel,' meddai hwnnw, 'roeddwn i ddim wedi meddwl ca'l neb yn 'i le, gan nad oes ganddo ddim byw i'w wneud.' Ac meddai fy nhad wrtho, 'Dyna pam roeddwn i'n gofyn am y job!' Yn rhyfedd ddigon fe gafodd y swydd a bu'n gweithio gyda'r saer maen hyd ei ymddeoliad, yn 71 oed, wedi iddo gwblhau 58 o flynyddoedd yn y chwarel.

Pan fyddai'r tywydd yn rhy arw i'r chwarelwyr weithio byddent yn ymochel rhag y tywydd garw yn y caban, ac i dreulio'r amser byddent yn chwarae gêmiau megis 'draughts', 'dominoes' neu 'chess', tra byddai eraill yn dweud straeon. Roedd fy nhad yn storiwr heb ei ail, ac fe fyddai adegau fel hynny yn ddelfrydol i'w bwrpas.

Cafodd ei dwyllog yn go arw un tro. Roedd fy mrawd a minnau wedi prynu radio gan ffrind i mi a gadwai siop radio yn y pentref. Roedd yna le ar y radio i osod 'head-phones' a chawsom ar ddeall fod modd siarad i mewn i'r set drwy siarad i'r head-phones — gan roi'r argraff mai darllediad y BBC oedd ar dro. Gwyddem yn iawn y gwrandawai fy nhad ar bron iawn pob rhaglen Gymraeg a ddeuai ar y radio, ac fe roisom y cynllun ar waith.

Gorweddodd Dafydd, fy mrawd, ar ei hyd ar ben y grisau gyda'r head-phones yn ei law tra roeddwn innau yn eistedd ar gadair wrth ochr y radio tra'n cymeryd arnaf fod yn chwarae gyda'r nobiau. Troais y swn



Dr Dan Hughes yn cyflwyno anrheg i'r Dr. O. Jones ar achlusur ei ymddeoliad yn ddiweddar.

o fewn cyrraedd y werin-bobl. Gall prisiau uchel y campau amddifadu'r gêmiau o'u gwreiddiau. Onid oes gan y cefnogwyr o Gaernarfon a Llanberis yr un hawl â rhywun o Benybont neu Gastell-nedd i gefnogi ei wlad ei hun. Does ryfedd mai cynyddu mae 'cefnogwyr y cadeiriau esmwyth'.

Un elfen bositif o bencampwriaeth pêl-droed Ewrop ar hyn o bryd yw lleoliad y gêmiau. Mae mwy o

awyrgylch yn Anfield ac Old Trafford fodern na'r 'hen' Wembley. Onid yw cefnogaeth 'Gymreig' y Cae Ras yn rhoi gwefr i chwaraewyr y crysau cochion?

Ble mae Cymru? Ym myd y prif gampau ymddengys mai o fewn milltir sgwâr ein prifddinas.

O sylweddoli hyn onid y gri i ni — sy'n fodlon eistedd yn ôl a derbyn popeth — yw gofyn: 'Ble mae'r Cymry?'

i fyny a dechreuodd Dafydd gymryd arno mai dyn o'r BBC oedd ar ymweliad â'r chwarel gydag Americanwr a arferai weithio yn y chwarel cyn iddo ymfudo. Tri cymeriad oedd yn y ddrama, sef yr Americanwr, dyn y BBC ac Owen Henry Jones, gŵr o'r pentref a oedd yn oruchwyliwr yn y chwarel ac a adwaenid gan bawb fel 'Y Bachgen Main'. Thema'r sgwrs oedd 'pa mor ddiog, yn ôl Owen Henry, oedd y chwarelwyr yn awr, gyda'r Americanwr yn cydweld gan ddweud na fyddai gweithwyr Chwarel Dinorwig yn dal eu swyddi am funud yn y 'States'. Fel y dywedais, roeddwn i yn eistedd ar gadair wrth ochr y radio tra roedd fy nhad yn eistedd wrth ochr y tân yn ei gadair arferol.

Nid oedd y llais a ddeuai o'r radio yn uchel na chliir iawn gan fod yn rhaid i Dafydd siarad yn weddol ddistaw, rhag ofn i 'nhad ei glywed wrth ben y llais ar y radio a darganfod beth oedd yn mynd ymlaen.

Cododd o'i gadair gan eistedd

oddi fewn modfeddi i'r set, ac â'i yn fwy gwallgof bob tro yr agorai yr Americanwr neu Y Bachgen Main ei geg. Roedd gŵr y BBC yn plesio tipyn gan ei fod yn dueddol o fod o blaid y gweithwyr. Erbyn hyn roedd fy nhad wedi colli arno'i hun yn llwyr tra roedd Mam, Grace (fy ngwraig erbyn hyn) a minnau yn methu'n lân a dal heb chwerthin. Aeth y 'Rhaglen' ymlaen am beth amser cyn i Dafydd redeg allan o sgript. Wedi i'r rhaglen orffen aeth fy nhad yn syth i'r Bull gan ddweud yno beth oedd o wedi'i glywed — a chael rhai eraill o'r cwsmeriaid i honni eu bod hwythau wedi clywed y rhaglen hefyd.

Ni chafodd wybod hyd amser mynd adref mai 'rhaglen ffug' oedd wedi ei glywed ac fe fu llawer o hwyl am y peth. Flynyddoedd yn ddiweddarach gwelais Owen Henry Jones ac fe soniais wrtho am y peth. Er mawr syndod i mi, gwyddai yr hanes yn iawn a châl hwyl fawr wrth ei drafod.


Cewch ddarllen 'Stori'r Watch Aur' y tro nesaf...

**ERIC
JONES**
PENISARWAUN
PEINTIWR
AC ADDURNWR
**Joban Dda
am Bris
Rhesymol**
Ffôn: 872421

Siop Trin Gwallt
SANDRA
Stryd Fawr
DEINIOLEN
Ffôn: 872112

- Ar agor bob diwrnod o'r wythnos
- Prisiau arbennig i bensiynwyr

CROESAIR MEDI



Croesair cyntaf yr Eco ar ôl **AMSER** gwyliau, **AMSER** gorffwys a **CHYFNOD** o beidio crafu'r pen. **AMSER**, neu **GYFNODAU** yw thema hwn hefyd, ac rwyf wedi dilyn cyngor nifer ohonoch ac wedi ceisio creu cliwiau ychydig haws nag arfer fel na chymer gymaint o **ORIAU** i chi i'w datrys ac y bydd mwy ohonoch yn gyrru eich atebion cywir ataf erbyn y **CYFNOD** a osodir.


AR DRAWS

1. Yr ail (3)
3. Gwaedd cri y glas! (8)
6. Y pumed (3)
9. Mwy nag un paradwys (8)
10. Canghennog (8)
11. Enw cyntaf Williams yr Emynydd (7)
13. Y chweched (6)
17. Un sy'n dwrdio (8)
20. Nid un o ddannedd cyn-heddwas Cwm Deri ond cogen er hynny (8)
22. Nid dyma hoff dasg athrawon, mae'n rhaid nodi (6)
26. Cyflwr y cardodyn (7)
27. Y perfformiadau gorau (8)
30. Y gwerinol garw? (8)
32. Rhedegfa (3)
33. Y rhai dewisedig (8)
34. Y cyntaf (3)

I LAWR

1. Un sy'n gwneud cynlluniau ar bapur (6)
2. Daniel Owen a Kate Roberts er enghraifft (8)
3. Gweithredu'n ddichellgar (6)
4. Dyma ble'r ydym ni o hyd, yn ôl Dafydd Iwan (3)
5. Am Leonard? Nage, am lythyr! (5)
6. Cerrig i groesi afon (4)
7. Iorwerth i'w ffrindiau (4)
8. Bonheddw'r tal? (6)
12. Casineb Sali 'ma! (6)
14. Y dryw a adeiladodd Gadeirlan St. Paul's? (4)
15. Meddiant (4)
16. Tonnau gwallt Gwen y gogyddes (6)
18. 'Dame ----', neu Barry Humphreys (4)
19. Ty----, Cadeirlan Nawddsant Cymru (4)
21. Cyfenw yr emynydd Dewi Môn (8)
22. Y pedwerydd (6)
23. a'r seithfed (6)
24. Ffolineb (3,3)
25. Y trydydd (5)
28. Ymdrech i sgorio? (4)
29. Yr hyn a gaed ar hen feic peni-fardding taid? (4)
31. Defnydd seimlyd i iachau'r croen (3)

ATEBION CROESAIR MIS GORFFENNAF



Rhai o'r glwedydd Celtaidd oedd thema Croesair Gorffennaf, a chafwyd pymtheg o atebion cywir iddo. Gosodwyd tasg ychwanegol o greu cliw cryptig i'r gair **Iwerddon**, ac unwaith eto, mae dyfeisgarwch rhai ohonoch yn denu fy edmygedd llwyr. Fedra i ddim gwobrwyo cynnydd Ceridwen Williams, Llanrug (**Roedd Iwan yn un o'r gwarchodlu Cymraeg**

yno); na Mrs G.Gill, Bangor (Lle ar i waered, i sudd oeri), am y rheswm syml na allaf i eu datrys, ac rwy'n sicr mai arnaf i mae'r bai. Bu bron iawn, iawn i gynnig Mrs E. W. Pritchard, Garndolbenmaen, fynd i'r un categori hefyd, ond ar y funud olaf fe welais drwy 'Mae darn ôl yr un goch neu lwyd braidd yn ddoniol yma' (Wiwer ddoniol).

Cyfeirio at wahanol nodweddion o'r ynys wna Iorwerth a Joan Williams, Caernarfon, 'Gwlad y Shamrock'; Nansi Davies, Rhuthun, 'Gwlad yr hud a lledrith - tybed!'; Mabel Parry, Porthmadog, 'Yma bu prinder tatws'; ac un arall a anghofiodd gynnwys ei enw, 'Yma hiraethodd Branwen am Gymru'.

Anagramau a gafwyd gan Ceinwen Williams, Bethel, 'Iddew a chyn-arlwydd' (Iddew + Ron); 'Mae yn ei noddwr dir gwaedlyd' yn dda gan Catherine Jones, Rhiw, (ei noddwr), a 'Cymysglyd yn hanes Iddew o Lynges Frenhinol Lloegr yn y lle hwn' (Iddew o RN) gan Mary Davies, Waunfawr.

Mae Beryl Jones, Garndolbenmaen wedi llwyddo i greu anagram a diffiniad

DRAENIAU O'R DIWEDD

(Parhad o'r dudalen flaen)

os oedd rhywun yn gwrthwynebu, gallai'r gost fod yn fwy fyth.

Bu storm o brotest ynghylch natur 'ansensitif' y llythyr a chyhuddiadau o ddiffyg ymgynghori. Daeth y mater i sylw cenedlaethol gyda'r rhaglen S4C, 'Hawlio', yn adrodd yr helynt. O ganlyniad i bwysau'r ddau gynghorydd sir lleol daeth penaeithiad yr Adran Dai i gyfarfod brys â thrigolion y stad yn Ysgol Brynrefail. Yno cytunwyd ar gyfres o fesurau, yn cynnwys cyfarfodydd rheolaidd rhwng y Cyngor, contractwyr a thrigolion y stad i drafod pryderon a datrys problemau

wrth i'r gwaith fynd yn ei flaen. Byddid hefyd yn edrych o'r newydd ar y dull o dalu amdano.

Yn ôl y Cynghorydd Brian Jones bu'r cyfarfod hwn, a'r cyfarfodydd rheolaidd a ddeilliodd, o gymorth mawr. 'Rwy'n talu teyrnged i gynrychiolwyr Cymdeithas y Stad am eu gwaith dros y blynyddoedd, er gwaethaf sawl ergyd a phoen meddwl.' Ychwanegodd, 'Ar adeg o doriadau mewn arian llywodraeth leol, doedd o ddim yn hawdd cael Cyngor Gwynedd i ganfod £70,000, sef dros £1,000 y ty, tuag at gost y gwaith. Ond rwy'n falch eithriadol fod ymgyrch trigolion Stad Glanffynnon ac Afon Rhos wedi llwyddo, a'r Cyngor wedi ymateb i'w ceisiadau teg.'

DYDDIADUR MIS GORFFENNAF


- | | |
|-------------|--|
| 3. Mawrth | DEINIOLEN: Clwb Elidir yn y Ganolfan am 2 o'r gloch. |
| 6. Gwener | DEINIOLEN: Noson Goffi y Seindorf yn yr Ysgol am 6.30 |
| 8. Sul | YR ARDAL: Yr Ysgolion Sul yn aildddechrau — Capel Coch, Penisarwaun, Brynrefail, ac Unedig Deinioelen. |
| 9. Llun | DINORWIG: Pwyllgor y Ganolfan am 7.30. |
| 10. Mawrth | LLANRUG: Merched y Wawr yn yr Ysgol am 7.30. |
| 11. Mercher | BETHEL: Cyngerdd yng Nghapel Cysegr am 7.30. |
| 12. Iau | BRYNREFAIL: Cymdeithas y Chwiroydd.
DEINIOLEN: Cymdeithas y Chwiroydd, Ebeneser am 7. |
| 14. Sadwrn | PENISARWAUN: Taith Gerdded Llwybrau (noddedig). |
| 16. Llun | DEINIOLEN: Merched y Wawr yn y Ganolfan am 7. |
| 19. Iau | DINORWIG: Dosbarth Nos (WEA) am 7 yn y Ganolfan. |
| 21. Sadwrn | WAUNFAWR: 'Llydaw a'r Llydaweg' yn y Ganolfan. |
| 23. Llun | DEINIOLEN: Y Gymdeithas Lenyddol yn y Ganolfan am 7. |
| 25. Mercher | LLANRUG: Plaid Cymru yng Nghanolfan Penisarwaun am 7. |
| 27. Gwener | YR ARDAL: Diwrnod Agored Swyddfa Plaid Cymru. |
| 29. Sul | DEINIOLEN: Cyngerdd Gŵyl Mihangel Sant. Eglwys Llandinorwig. |
| HYDREF | |
| 1. Mawrth | WAUNFAWR: Dosbarth Nos (WEA) yn yr Ysgol am 7. |

TRIN GWALLT YN EICH CARTREF MERCHED ★ DYNION ★ PLANT

Lynette Evans
GARNET, LLANRUG
Ffôn: 673981/675807

★ Tacsï

★ Maes Awyr



Yfwch chi
Gyrrwn ni!

Ffôn: 871049/symudol 0831 429970
neu ffoniwch ni am ddim ar
National Cabline — Freephone 0800-123-444

CERBYDAU CLASUROL YR WYDDFA



Cyrhaeddwch mewn steil —
mewn cerbyd **Rolls Royce**
ar gyfer priodasau, penblwyddi
ac achlysuron arbennig eraill

Dylan Griffith, Tros-y-Waen, Penisarwaun
Ffôn: (01286) 871833

sy'n gosod mewn pum gair hanes cythryblus yr Ynys Werdd, 'Noddi erw mewn ynys waedlyd' (Noddi erw = Iwerddon).

Cyfeiriodd E. E. Jones, Rhoshirwaun at ddymuniad 'Fflat Huw Puw' i hwylio yno, ac mae Jean Hughes-Jones, Rhiw, wedi dadansoddi'r gair, 'Ai llythyren liwgar a roed i'r wlad? 'Na' medd y Sais yn chwithig' (I-werdd-on (no)).

Mae yna un cynnig ar ôl, sef un D. A. Pritchard-Jones, Abererch, sydd, fel arfer bellach, wedi ei lunio mewn odl: 'I'r ei thir a thaer ei llais

Ynys rydd ynte ynys y Sais?'

Gwych! Mae'n rhaid i mi gyfaddef i mi ofyn i rywun arall benderfynu rhwng y cynnig hwn ag un Beryl, ac iddi hi, Beryl Jones, 1 Talefion, Garndolbenmaen yr â £5 mis Gorffennaf.

Gan fy mod i'n disgwyl llawer mwy o atebion cywir i'r Croesair hwn, does yna ddim tasg ychwanegol, a'r buddugol fydd y cyntaf allan o'r het fydd yn cynnwys yr holl ymdrechion a ddaw i law. Anfonwch eich atebion i Dafydd Evans, Sycharth, Penisarwaun, Caernarfon, ERYN 23 MEDI, os gwelwch yn dda.

CHWARAEON

Ble Mae Cymru?

Mae'r haul 'ma yn dechra effeithio ar y golygydd chwaraeon medda chi. Dyna gwestiwn twp. Beth sydd gan y cwestiwn i'w wneud â chwaraeon?

Rwy'n dechrau ysgrifennu'r llith hwn yn ystod egwyl yn y gêm griced rhwng Bangor a Chaerdydd ar Erddi Sophia yn y brifddinas — gêm yn nhyreddd rownd Cwpan Cymru. Mae Bangor wedi aros yn ffyddlon i griced y gogledd ac yn chwarae yn yr adran gyntaf. Mae Caerdydd yn chwarae yn y 'Western League' — tri thîm o dde Cymru a'r gweddill o Gaerwrangon a Chaerloyw. Mae Bae Colwyn a Marchwail sydd yng Nghynghrair Lerpwl yn chwarae yn y gystadleuaeth. Ble mae Cymru?

Hyd yn ddiweddar Clwb Athletig Caerdydd oedd perchen y maes ac fe symudasent yma pan adeiladwyd y Stadiwm Genedlaethol bresennol. Drws nesaf i'r Parc yr Arfau gwreiddiol roedd maes criced Caerdydd, ble y chwaraeai Morgannwg hefyd — ac yno y cefais fy nghap cyntaf yn chwarae yn erbyn Iwerddon yn 1965. Erbyn heddiw mae Morgannwg wedi penderfynu datblygu Gerddi Sophia fel eu pencadlys ac maent wedi talu £2.4 miliwn am y tir i Glwb Caerdydd. Beth fydd y canlyniad? Yn amlwg, wedi iddynt wario'r holl arian fe fydd Morgannwg yn ei ddefnyddio yn rheolaidd, a dyna fydd diwedd y teithio o gwmpas Cymru gan y sir sydd yn ymfalchïo yn eu hymffrost o fod yn 'dim Cymru'. Os am weld criced ar y lefel uchaf yng Nghymru rhaid bellach fydd teithio i'r brifddinas. Os ydych, fel fi, yn deithiwr cyson yno — ar yr A470 neu'r A49 — gwyddoch fod siwrnai o leiaf bedair awr yn eich wynebu. Wrth roi pris y petrol, tocyn a lle i aros, gyda'i gilydd dyna i chi dipyn o gost. Rhyw ugain mlynedd yn ôl cefais y fraint o chwarae ar Sain Helen yn Abertawe i dîm criced Gogledd Cymru yng ngêm canmlwyddiant Clwb Abertawe ac yr oedd traddodiad a hanes yn ein amgylchynnu. Cyfeirid ni yn naturiol i gyfeiriad chwech chwech Sobers. Trist oedd ymweld â Sain Helen ychydig wythnosau yn ôl a gweld y dirywiad. Er rho cefnogwyr brwd y gorllewin bydd cysegr Sain Helen hefyd yn golli gêmiau gan mai yng Nghaerdydd y bydd y pencadlys. Ble mae Cymru?

Uchafbwynt y tymor yn y gogledd yw'r gêm draddodiadol ym Mae Colwyn, ond ni ddaw Morgannwg

yno eleni gan mai'r ddadl yw mai gêm oddi cartref fyddai i Forgannwg. Rhyfedd o ddamcaniaeth o gofio fod cyfanswm torfeydd Bae Colwyn, dros y pedwar diwrnod, yn cyfateb i ddwy neu dair gêm ar feysydd y de. Trist yw meddwl mai Mathew Maynard y 'gogleddwr' yw'r capten eleni a hynny yn ei flwyddyn dysteb ac yn sicr fe fydd yn ergyd ariannol iddo, ac fe wn fod llawer o aelodau 'Sir Cymru' wedi ymddiswyddo am na fydd Morgannwg yn ymweld â Bae Colwyn eleni. Ble mae Cymru?

'Rwyf newydd anfon archeb i Gaerdydd am 50 o docynnau i weld gêm bêl-droed Cymru yn erbyn yr Iseldiroedd a gynhelir ym mis Hydref. Unwaith eto bydd yn rhaid ymlwybro i Gaerdydd ac, oherwydd y teledir y gêm, ni ddechreuir tan 7 o'r gloch yr hwyr sy'n golygu cychwyn am adref oddeutu 10 o'r gloch yr hwyr; ynghyd â'r gost y soniwyd amdani uchod! Mae'n hynod o gyfleus bod yn ddilynwyr y campau yng Nghymru ar hyn o bryd os ydych yn byw ar hyd coridor yr M4. Yn flynyddol byddaf yn mynd a dau drip o'r ysgol acw i weld gêm Cymru ac mae'r plant yn cefnogi Cymru gan mai Cymry ydyn nhw! Y trip hwn — sy'n cynnwys prisiau gostyngedig — yw'r unig gyfle a gaiff y plant i weld 'eu gwlad' yn chwarae ar y lefel uchaf. Yr un, wrth gwrs, yw'r sefyllfa gyda rygbi. Pan ddaw y stadiwm newydd (a oes ei gwir angen?) yna dyna ganoli popeth yn bendant o fewn milltir sgwâr y brifddinas. Yn bendant cynyddu hefyd

Parhad ar dudalen 18

TLWS CYNTA'R TYMOR



Richard, Huw ac Andrew gyda Thlws cynta'r tymor.

Mae tymor y prif gampau ar gychwyn a newidiadau mawr yn eu wynebu. Ymddengys nad yw'r tymor pêl-droed wedi gorffen o gwbl. Ni fu erioed gymaint o gêmiau 'cyfeillgar' yn yr ardal yma.

Mae'r byd rygbi mewn penbleth llwyr yn ceisio diffinio y term 'proffesiynol'. Ymddengys fod yr arian (a'r teledu) yn rheoli'r gêm yn hytrach na pherfformiadau. Rhyfedd meddwl am y rhagrith, a'r sen a ddioddefodd clybiau rygbi'r gynghrair erstalwm am ddod fel 'lladron yn y nos' i ddwyn sêr y byd rygbi'r undeb. Heddiw mae'r esgid ar y droed arall, a hynny yn hollol 'agored'. Rhyfedd o fyd.

Tîm mabwysiedig 'bro'r Eco' yw Clwb Rygbi Caernarfon. Eisoes mae nifer o fechgyn ifanc a llanciau wedi ymuno ac mae croeso i eraill wneud hynny.

I ddechrau'r tymor cynhaliwyd cystadleuaeth 7-bob-ochr a denwyd wyth tîm i'r gystadleuaeth, wedi eu rhannu i ddau grŵp o bedwar. Mae'r dull hwn o rygbi — a sefydlwyd yng ngororau'r Alban — yn atyniadol iawn. Mae'n ddibynnol ar gryn ffitrwydd, crefft trin pêl, a'r gallu i gefnogi.

Soniais eisoes am 'nythaid o fechgyn cylch Bethel' sy'n chwarae i Glwb Caernarfon ac ar gyfer y gystadleuaeth hon fe ffurfiwyd tîm ganddynt — a syndod i bawb oedd nad 'Barbariaid Bethel' oedd eu henw! Roedd llawer wedi nodi y drefn o'r criw yn yfed sudd oren yn Y Bedol, ac roedd yna si ar led fod rhai hyd yn oed yn rhedeg ar y slei. Roedd 'Harri Bach' yn poeni fod golwg wael ar un neu ddau ohonynt. Y saith oedd: Richard Evans, y capten; Myfyr Jones, Huw Williams, Huw Morgan, John Morgan, Andrew Hughes, a Gary Evans. Enillwyd eu gêmiau grŵp yn rhwydd ac yna yn y rownd gyn-derfynol curo tîm John Pod — y ffefrynnau am y Tlws. Yna ymlaen i'r rownd derfynol yn erbyn 'ffleiers' yr Awyrlu o'r Fali. 19-19 oedd y sgôr felly y cyntaf i sgorio oedd hi, a'r capten, Richard Evans, gafodd y sgôr dyngedfenol honno — y bwysicaf o'r saith cais a gafwyd yn ystod y dydd.

Dewiswyd Andrew 'Charlie' Hughes yn brif chwaraewr y gystadleuaeth. Yn anffodus anafodd Huw Cefn Gwyn ei ysgwydd dde yn ystod y ffeinal. Felly fe fydd y bachwr allam o'r gêm am fis, ac mae'n gofyn i ferched gadw i'r chwith ohono am y mis nesaf!

LLONGYFARCHIADAU

Llongyfarchiadau i glwb criced mabwysiedig yr Eco, sef Fron Dinas. Maent wedi cipio pencampwriaeth Cynghrair Dave Elliott Gwynedd. Y capten llwyddiannus yw Iestyn Roberts o Lanrug. Mae gan y tîm gyfle i gipio y dwbl, gan iddo gyrraedd rownd derfynol Cwpan Pike, a'r gwrthwynebwyr fydd un ai Bangor neu Llanrwst.

ALAN SHEARER

Malais y pymtheg miliwn — i rwydo Yr adyn, gan helgwn. I rai, cur, yn sur, llawn sŵn; Wedi'r tinsel daw'r tensiwn.

R.L.I.J.

Mabolgampau Ysgol Brynrefail 1996

Soniais y llynedd am lyfr cofnodion athletau'r ysgol a gadwyd yn drylwyr gan Dic Parry am flynyddoedd. Gwn hefyd fod llawer o gyn-ddisgyblion yn hoffi gwybod pa dŷ ddaeth i'r brig y tro hwn. Wedi cystadleuaeth agos iawn, a nifer o berfformiadau clodwiw iawn, y pwyntiau terfynol oedd: **Eryri 525, Elidir 518, Eilian 373, Gwyrfa 302.** Y mae'r traddodiad rhedeg cryf — ar y trac ac ar draws-gwlad — yn yr ysgol ac eleni sefydlwyd nifer record newydd. Felly, i chwi hen ddeiliaid y record, dyma'r newyddion drwg (neu dda)! Daeth dwy record newydd i ddisgyblion y flwyddyn gyntaf (Bl.7). Yn y 100m i ferched y record newydd yw 14.72 gan Aimee Addison. Yn y ras 300m cipiwyd y record gan Claudia O'Donnell mewn amser o 1 funud.

Daeth tair record newydd i enethod Bl. 8. Gwibiodd Claudette Fleming dros y clwydi mewn amser o 13.18. Torrwyd record y 300m gan Nicola Jones mewn amser o 1:0:93. Gadawodd Elin Harding y gweddill o'r rhedwyr yn ras glasur o 1500m mewn amser o 5:48:34.

Merch hefyd a gipiodd y record olaf i'w thorri. Eto y record dros 1500m a dorwyd a hynny i ferched Bl. 10. Y deiliaid newydd yw Susan Thomas mewn amser o 6:04. Diddorol sylwi fod record Bl. 8, 16

eiliad yn gyflymach na record Bl. 10. Mae'n amlwg fod record arall o dan fygythiad ymhen ryw flwyddyn neu ddwy.

Aeth Llinos Roberts gam ymhellach drwy gystadlu yn Mabolgampau Ysgolion Cymru a thaflodd y ddisgen yn dda iawn gan gipio'r fedal arian. Roedd hwn yn berfformiad arbennig o dda ac yn sicr gyda hyfforddiant a dyfalbarhad fe welir gwellhad eto. Pellter taflad gan Llinos oedd 29 metr.



Llinos a'r fedal arian am daflu'r ddisgen.

APÊL!

**CHWI GLYBIAU PÊL-DROED
ANFONWCH WYBODAETH
I MI, OS YDYCH AM GAEL
CYHOEDDUSRWYDD A
SYLW, RHOWCH GANIAD:
(01248) 670115**